Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Grŵp Llywio 18 PBC**
14eg Tachwedd 2012
Bangor

**AGENDA**
Bydd 18fed Cyfarfod Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru yn cael ei gynnal yn Swyddfa Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Maes-y-Ffynnon, Penrhosgarnedd, Bangor (mae map lleoliad i'w weld yma). Bydd te a choffi ar gael o 10:00 ymlaen.

| AMSER | RHIF Y PAPUR | TEITL | ARWEINYDD |
|---|---|---|---|
| 10:00 | **Ymgynnull, te/coffi** | | |
| 10:30 | 1 | **Croeso:** Cyflwyniad ac ymddiheuriadau | Matthew Quinn |
| 10:35 | 2 | **Prif Bapur:** Rhaglen Natura 2000 LIFE y Cyngor Cefn Gwlad | Kathryn Hewitt |
| 11:00 | 3 | **Prif Bapur:** Y wybodaeth ddiweddaraf am System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) | Alys Edwards |
| 11:35 | 4 | **Prif Bapur:** Fframwaith Gweithredu Bioamrywiaeth Cymru | John Watkins |
| **12:35** | **CINIO – Dewch â chinio pecyn** | | |
| 13:15 | 5 | **Prif Bapur:** Adroddiad Blynyddol y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | Sarah Slater |
| 13:45 | 6 | **Prif Bapur:** Diwygiadau Rhestr a42 | Stephen Bladwell |
| 14:15 | 7 | Papurau i'w Nodi:<br>- **A** Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt – y diweddaraf**:**<br>- **B:** Canlyniadau Gweithdy Academaidd<br>- **C:** Cynllun Peilot Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Caerdydd 2012/13 – y wybodaeth ddiweddaraf<br>- **D:** Ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr | Matt Howells<br>Tracey Lovering<br>Laura Palmer<br>Nick Birula |
| 14:35 | 8 | Adborth gan Bartneriaeth Arfordir a Môr Cymru | |
| 14:40 | 9 | Y Diweddaraf o'r Pedair Gwlad | |
| 14:50 | 10 | Cadarnhau cofnodion a chamau gweithredu'r cyfarfod diwethaf | |
| 15:00 | 11 | Unrhyw fater arall | |
| 15:15 | 12 | **Dyddiad y cyfarfod nesaf**<br><br>19eg Chwefror 2013: Canolfan Amgylchedd Abertawe | |

| | |
|---|---|
| 15:30 | **Te prynhawn a gorffen** |

Mae gwasanaeth trên rheolaidd yn rhedeg o Fangor. Ewch i www.nationalrail.co.uk i gael y manylion.

**GRŴP LLYWIO 18 PBC**
**PAPUR 01**
**14 Tachwedd 2012**

**Rhaglen Natura 2000 LIFE ar gyfer Cymru**

***Cefndir/Cynlluniau***

**Nod y prosiect**

Datblygu rhaglen strategol i reoli ac adfer Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ac Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig yng Nghymru yn ystod y cyfnod 2014-20 a thu hwnt. Bydd y rhaglen wedi'i blaenoriaethu, yn fanwl, wedi'i chostio a'i chytuno gan randdeiliaid perthnasol.

**Diben/manteision Rhaglen Natura 2000 LIFE (N2K)**

- Galluogi Cymru i wneud cynnydd sylweddol tuag at sicrhau bod nodweddion safle N2K mewn cyflwr ffafriol a helpu Cymru i fodloni ei hymrwymiadau o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd a Chyfarwyddeb Adar Ewrop.

- Creu sail ar gyfer sicrhau mwy o arian o bob ffynhonnell bosibl, ac integreiddio cyllid N2K i offerynnau ariannu a meysydd polisi eraill.

- Cael yr holl randdeiliaid perthnasol yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r sector gwirfoddol i gydweithio i gydgrynhoi'r wybodaeth a'r arbenigedd orau sydd ar gael a chael y gymeradwyaeth a'r gefnogaeth orau bosibl i'r cynlluniau, fel y gellir dechrau gweithredu'r rhaglen cyn gynted â phosibl.

**Amcanion y Prosiect**

1) Casglu data/gwybodaeth i greu sail tystiolaeth gadarn – i gynnwys asesiadau o faterion a risgiau i nodweddion, dulliau rheoli cyfredol a newydd posibl, a chontractau i lenwi bylchau mewn tystiolaeth.

2) Adolygu trefniadau ariannu cyfredol a nodi a gwerthuso ffynonellau ariannu newydd posibl (drwy gontract mawr).

3) Llunio Cynlluniau Gweithredu ar gyfer pob safle N2K a rhai ychwanegol ar gyfer themâu a rhanbarthau, yn rhoi manylion gweithgareddau, costau, amserlenni, ffynonellau ariannu posibl, blaenoriaethau a chyfrifoldebau.

4) Cyhoeddi'r Rhaglen strategol drosfwaol ar gyfer safleoedd N2K yng Nghymru, gan nodi blaenoriaethau cenedlaethol, egwyddorion, cyfanswm costau a manylion ariannu.

5) Defnyddio amrywiaeth o ddulliau cyfathrebu i sicrhau bod y prosiect yn cael cymaint o gyhoeddusrwydd â phosibl, ymgynghori ar bob cam a rhannu'r canfyddiadau.

6) Datblygu Cronfa Ddata Gweithrediadau'r Cyngor Cefn Gwlad i gadw data'r rhaglen ac er mwyn gallu cyrchu a diweddaru'r canlyniadau'n hawdd.

**Cwmpas**

Caiff pob un o safleoedd N2K yng Nghymru, gan gynnwys ei dyfroedd tiriogaethol (h.y. safleoedd morol a thirol) eu cynnwys. Mae hyn yn cynnwys 20 o safleoedd gwarchodaeth arbennig a 92 o safleoedd cadwraeth arbennig sy'n rhannol neu'n gyfan gwbl yng Nghymru gyda chyfanswm arwynbedd o 703,853 ha. Bydd y Rhaglen yn ystyried materion a chamau gweithredu y tu mewn a'r tu allan i ffiniau safleoedd Natura 2000.

**Cynnwys sefydliadau rhanddeiliaid**

Mae cyfraniad rhanddeiliaid ym mhob cam yn allweddol i lwyddiant y prosiect. Y nod yw canfod atebion derbyniol i'r ddwy ochr y gellir eu gweithredu cyn gynted â phosibl gan y rhai sy'n gyfrifol am ddarparu.

Bydd sefydliadau rhanddeiliaid yn cynnwys y rhai sy'n cynrychioli ffermwyr, tirfeddianwyr, y diwydiant pysgota, rheolwyr safleoedd, defnyddwyr safleoedd, cadwraethwyr, rheoleiddwyr, academyddion, Grwpiau Rhanbarthau a Phencadlys y Cyngor Cefn Gwlad, asiantaethau a phenderfynwyr amgylcheddol eraill, yn arbennig Llywodraeth Cymru.

Bydd tîm y prosiect yn ymweld â fforymau, rhwydweithiau a grwpiau sy'n bodoli eisoes ac yn cyfarfod â sefydliadau unigol. Yn ogystal, cynhelir digwyddiad sefydlu i uwch staff a rhaglen o 24 o weithdai technegol a seminarau.

**Cysylltiadau â mentrau eraill**

Bydd Rhaglen N2K LIFE yn gweithio ochr yn ochr â'r Rhaglen Safleoedd Arbennig ac yn datblygu'r gwaith a gyflawnwyd eisoes gan y rhaglen honno (e.e. Cronfa Ddata Camau Gweithredu). Bydd y Rhaglen Safleoedd Arbennig yn canolbwyntio ar gydgysylltu'r gwaith o gyflawni'r camau gweithredu cyfredol ar gyfer yr holl safleoedd gwarchodedig, a Rhaglen N2K LIFE yn cynllunio ar gyfer camau gweithredu'r dyfodol ar safleoedd N2K.

Bydd tîm N2K LIFE yn ceisio gweithio gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a'i grwpiau cyfansoddol fel rhanddeiliad allweddol ynddi'i hun, ac fel modd o gyfathrebu a gyda sefydliadau partner a'u cynnwys.

Mae'r Fframwaith Gweithredu Blaenoriaethau yng Nghymru yn fenter ar wahân, ond bydd y fframwaith yn llywio datblygiad Rhaglen N2K LIFE, a bydd y Rhaglen yn darparu'r sail sylweddol a phennaf ar gyfer adolygu a manylu ar fersiynau pellach o'r fframwaith.

**Manylion**

| | |
|---|---|
| Hyd y Prosiect | 1 Medi 2012 – 31 Rhagfyr 2014 |
| Perchennog y prosiect | David Worrall, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, |

| | |
|---|---|
| (Cadeirydd Grŵp Llywio'r Prosiect) | Cyfarwyddwr Rhanbarthol y Gorllewin |
| Rheolwr y Prosiect | Kathryn Hewitt, Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Grŵp Ecosystemau Tirol |
| Tîm y Prosiect | Gweinyddwr y Prosiect<br>Rheolwr Data<br>Cydgysylltydd Dŵr Croyw a Gwlyptiroedd<br>Cydgysylltydd Tirol<br>Cydgysylltydd Morol<br>Cydgysylltydd Rhywogaethau |
| Cyllid/cyllideb | LIFE+ Nature yr UE, Cyngor Cefn Gwlad Cymru<br>€1,330,276 / £1,000,000<br>LIFE: 50% = €665,138 / £500,000<br>Cyngor Cefn Gwlad Cymru: 50% = £500,000 |
| Cyswllt | Rheolwr Rhaglen N2K LIFE,<br>Cyngor Cefn Gwlad Cymru,<br>Maes y Ffynnon, Penrhosgarnedd,<br>BANGOR, LL57 2DW<br>Ffôn: 01248 387184,<br>E-bost: K.Hewitt@CCW.gov.uk<br>Gwefan: http://www.ccw.gov.uk |
| Cefnogwyd gan LIFE, offeryn ariannol y Gymuned Ewropeaidd. LIFE 11 NAT/UK/385 | |

## *Pwyntiau Penderfynu*

Cymeradwyo nodau ac amcanion Rhaglen N2K LIFE.

Cytuno i gyfrannu i'r prosiect (e.e. darparu gwybodaeth a chyngor, ymgynghori ar ganlyniadau, cymeradwyo'r Rhaglen ar gamau perthnasol), drwy grwpiau perthnasol o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru.

**GRŴP LLYWIO 18 PBC**
**PAPUR 02**
**14eg Tachwedd 2012**

## Treialu System Adrodd ar Weithredu Bioamrywiaeth (BARS) y DU

### *Cefndir/Cynnydd*

BARS yw'r unig system ryngrwyd sy'n gallu coladu ac adrodd ar gamau gweithredu bioamrywiaeth a gyflawnwyd yn unrhyw le yn y DU a'i amgylchedd morol. Mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru a Chyngor Cefn Gwlad Cymru wedi cyfrannu'n ariannol at y system hon dros y 10 mlynedd diwethaf ac wedi cefnogi ei datblygiad o gronfa ddata i system seiliedig ar fapiau. Mae'r system yn cael ei gweinyddu, ei chynnal a'i datblygu gan JNCC ar hyn o bryd, sydd hefyd yn cydgysylltu cyfarfodydd Bwrdd y Prosiect a rheoli'r Memorandwm Cytundeb. Ceir buddsoddiad o £13,000 o Gymru ar hyn o bryd ac mae'r system ar gael yn hawdd i ddefnyddwyr. Mae gan BARS botensial aruthrol i gefnogi amrywiaeth o ofynion adrodd yn ogystal â darparu gwybodaeth bwysig i helpu i wneud penderfyniadau ar flaenoriaethau gweithredu'r dyfodol. Mae cynrychiolwyr o'r Cyngor Cefn Gwlad a'r Bartneriaeth Bioamrywiaeth yn aelodau o Fwrdd Prosiect BARS y DU gan eu bod yn cyfrannu'n ariannol ato ac maent yn gallu cyfrannu at y rhaglen ddatblygu flynyddol.

Cafodd fersiwn newydd o BARS sy'n seiliedig ar fapiau ei lansio ar 18 Ebrill 2012. Mae'r system newydd wedi'i datblygu o'r gwaelod i fyny i gynnig cronfa o ddata gweithredu cyfunol sy'n disgrifio camau gweithredu unigol a gymerwyd er budd bioamrywiaeth gan alluogi BARS i gynnig detholiad o ddulliau mapio a chrynhoi grymus. Yna, gellir cysylltu'r camau gweithredu i brosiect neu gasgliad o brosiectau a choladu gwybodaeth ar wahanol lefelau.

Bydd y system newydd yn darparu ffynhonnell dystiolaeth bwysig i gefnogi'r gwaith o gyflawni ac adrodd ar waith yn y DU i warchod a gwella cynefinoedd a rhywogaethau pwysig. Mae BARS yn cynnig dull canolog i goladu data o'r fath sy'n cael ei gadw gan amlaf mewn ffynonellau sydd wedi'u dosbarthu'n eang eang ac mewn fformatau amrywiol.

**Beth mae'r fersiwn newydd o BARS yn ei gynnig?**

- Gallwch gyfrannu gwybodaeth am eich camau gweithredu bioamrywiaeth eich hun, naill ai camau gweithredu annibynnol neu fel rhan o brosiect ehangach. Mae pob prosiect yn cael ei dudalen ei hun yn BARS sy'n cynnwys disgrifiad ohono a manylion/crynodebau o'r camau gweithredu oddi tano.
- Gallwch ddefnyddio'r Mapiau Gweithredu i archwilio dosbarthiad daearyddol data gweithredu BARS a gwneud chwiliad manylach drwy ddefnyddio nifer o hidlwyr (cynefin, rhywogaeth, dyddiad, sefydliad arweiniol, amcan bioamrywiaeth ac ati). Trwy'r allwedd deinamig a lliwiau'r pwyntiau neu'r polygonau ar y map gellir gwahaniaethu'n hawdd rhwng statws cam gweithredu neu fath o gam gweithredu.
- Gallwch ddefnyddio'r Adroddiadau Gweithredu i weld faint o gamau gweithredu sy'n cael eu cymryd ar gyfer nodweddion bioamrywiaeth penodol neu mewn lleoliad penodol.
- Gall unrhyw un gofrestru cyfrif defnyddiwr ar BARS. Ar ôl gwneud, fe allant gyflwyno cais i gofrestru sefydliad newydd neu wneud cais i ymuno â sefydliad sydd eisoes wedi cofrestru ar BARS.

**Treialu BARS yn 2012 / 2013**

Pan roedd y system newydd yn cael ei datblygu bu Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru'n ymgysylltu â phartneriaid allweddol sy'n rhan o'r Bartneriaeth. Cynhaliwyd sawl cyfarfod yn ystod 2011/12 i drafod y defnydd posibl o'r system newydd ac i sicrhau ei bod yn cyd-fynd â systemau adrodd mewnol cyfredol ar gamau gweithredu.

Ochr yn ochr â hyn, mae Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru wedi bod yn cynnal ymarfer mapio gweithredu â blaenoriaeth, er mwyn darparu golwg strategol ar dargedau adnoddau a thargedau bioamrywiaeth Cymru ar gyfer y dyfodol ar lefel genedlaethol. Gall y gwaith hwn lywio gwaith amrywiaeth eang o gyrff yn cynnwys yr asiantaethau statudol, Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Lleol, cyrff anllywodraethol a'r sector preifat a chanolbwyntio camau gweithredu ar y cynefinoedd/rhywogaethau hynny sydd angen eu rheoli fwyaf. Bydd meysydd blaenoriaeth a nodwyd gan 4 o grwpiau ecosystemau tirol y Bartneriaeth Bioamrywiaeth yn cael eu hychwanegu at BARS fel haen ffiniol eleni. Bydd hyn yn helpu i gyfathrebu meysydd blaenoriaeth i randdeiliaid eraill yn ogystal â dangos sut mae camau gweithredu yn cyd-fynd â blaenoriaethau a lle mae yna fylchau.

Yn Lloegr, mae BARS wedi'i nodi fel dull pwysig o gefnogi'r gwaith o adrodd yn erbyn canlyniadau 1a, 1b a 3 Strategaeth Bioamrywiaeth 2020 (gweler Atodiad 01). Mae targedau cenedlaethol a'r fframwaith ar gyfer cyflawni'r targedau hyn yn dal i gael eu datblygu yng Nghymru. Ein blaenoriaeth, felly, yw datblygu'r gymuned o ddefnyddwyr a chael mwy o ddata ar y system. Fel rhan o'r gwaith hwn, caiff ymarferoldeb y system newydd ei brofi, gan roi adborth a mewnbwn i'r broses ddatblygu'n flynyddol, er mwyn sicrhau bod y system yn bodloni ein gofynion yn y dyfodol.

Mae gan y Bartneriaeth Bioamrywiaeth a'r Cyngor Cefn Gwlad dri chynllun peilot ar waith ar hyn o bryd. Nod y rhain yw profi ymarferoldeb BARS, ac archwilio rôl a gwerth BARS yng Nghymru gyda golwg ar ddefnyddio BARS i gyfrannu at amrywiaeth o ofynion adrodd yn cynnwys cefnogi adrodd ar lefel Cymru yn y dyfodol.

**Cynlluniau Peilot**

1. **Dull newydd o gydgysylltu a darparu Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yng Nghymru**, wedi'i dreialu gan Gyngor Caerdydd drwy ei Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (*gweler Papur i'w Nodi C*). Bydd y gwaith yn hyrwyddo'r defnydd o ddata BARS gan bartneriaid lleol ac yn sicrhau cysondeb hawdd gyda meysydd blaenoriaeth Grwpiau Ecosystemau'r Bartneriaeth Bioamrywiaeth. Bydd yn fodd o nodi meysydd strategol a dyrannu cyllid yn fwy priodol i gyflawni gwaith bioamrywiaeth ar lawr gwlad.
2. **Adrodd am grantiau** gan ddefnyddio cyfleuster 'prosiect' newydd BARS. Bydd gwaith 2012/13 yn canolbwyntio ar y ddau gynllun grant allweddol yng Nghymru; Cronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau (ERD) a ariennir gan Lywodraeth Cymru, ac a weinyddir gan y Cyngor Cefn Gwlad ac Amgylchedd Cymru (EW), a'r Gronfa Grant Bioamrywiaeth. Mae'r ddwy gronfa yn cael eu llywio gan flaenoriaethau Grŵp Ecosystem Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru. Mae canllawiau wedi'u cynhyrchu ac mae cymorth ar gael i'r rhai sy'n rhan o'r cynlluniau. Bydd y cynlluniau peilot hyn yn profi cyfleuster adrodd BARS ac yn darparu adborth i raglen ddatblygu BARS 2013/14, a chyrff ariannu eraill. Mae'r ddau gynllun peilot yn darparu cyfle i adrodd ar brosiectau unigol a'r defnydd o ystadegau cyfanredol ar yr holl weithgarwch a wnaed gan y prosiectau ERD neu EW. Mae BARS hefyd yn darparu trosolwg gofodol o ddosbarthiad y camau gweithredu a gefnogir gan y cynlluniau hyn.

3. **Mae trosglwyddo data** o systemau pwrpasol yn rhan bwysig o ddatblygu data BARS. Mae Lloegr wrthi'n gweithio ar drosglwyddo data gweithredu amaeth-amgylcheddol lefel uchel i BARS ac mae Asiantaeth yr Amgylchedd eisoes yn trosglwyddo data gweithredu o'u prosiectau adfer cynefinoedd bob blwyddyn. Bydd y Cyngor Cefn Gwlad yn trosglwyddo data gweithredu ar rywogaethau a gweundir i BARS yn ystod y misoedd nesaf gyda'r nod o gwblhau'r gwaith hwn ar gyfer gweddill y cynefinoedd ar ôl i'r Un Corff Amgylcheddol gael ei sefydlu. Yna, bydd modd darparu'r wybodaeth ddiweddaraf yn rheolaidd.

**Datblygu'r defnydd o BARS yng Nghymru**
Cynhaliwyd dau ddigwyddiad hyfforddi ffurfiol dan arweiniad Natural England yng Nghaerdydd a Wrecsam yn gynharach eleni. Nod y digwyddiadau hyn oedd datblygu grŵp craidd o ddefnyddwyr sy'n gallu hyrwyddo'r defnydd o'r system i'r gymuned fioamrywiaeth ehangach. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau hyfforddi anffurfiol ledled Cymru gydag awdurdodau lleol, y parciau cenedlaethol, cyrff statudol a chyrff anllywodraethol. Bydd dau ddigwyddiad arall yn cael eu cynnal yn y Flwyddyn Newydd i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ddatblygiadau newydd a chynnydd yng ngallu'r system ac i ystyried y defnydd o'r system yn y dyfodol.

Mae Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol yn gynulleidfa allweddol yng Nghymru a dylai cydgysylltu a chyfathrebu eu gwaith fod yn ganolog i unrhyw waith ar raddfa tirwedd. Er mwyn helpu'r gwaith hwn, rydym yn datblygu canllawiau drafft ynglŷn â chynrychiolaeth y Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth yn BARS a chydweithio rhwng prosiectau, a fydd yn cael ei ddosbarthu'n fuan ar gyfer ymgynghori.

Bydd y cynlluniau treialu grantiau y soniwyd amdanynt uchod yn rhoi profiad o ddefnyddio BARS i unigolion mewn sawl sefydliad ac yn darparu enghreifftiau go iawn i ddangos sut y gall BARS gefnogi anghenion adrodd gwahanol mewn sefydliadau, partneriaethau, ac ar gyfer awdurdodau'r llywodraeth ac awdurdodau statudol. Bydd gwaith yn y dyfodol yn ystyried cynnwys BARS fel amod grant ar gyfer gwahanol ffrydiau ariannu a fyddai'n sicrhau bod gwybodaeth am weithredu ar fioamrywiaeth yn cael ei osod yn y cyd-destun ehangach, ac yn cefnogi adrodd yn ehangach, y tu hwnt i'r corff ariannu unigol. Bydd hyn yn annog cymuned ehangach o ddefnyddwyr.

**Mentrau trosglwyddo data eraill**

Ni ellir gwireddu manteision ymarferol BARS heb ddata da. Er mwyn datblygu'r gwaith hwn, bydd Cymru'n ddibynnol ar waith a gynhelir ar lefel y DU gyfan i ryw raddau gan fod llawer o'r cyrff anllywodraethol mawr yn coladu gwybodaeth am weithredu yn ganolog ar draws y pedair gwlad. Er y cyfyngiadau hyn, rhagwelir y bydd gwaith yn cael ei wneud ar lefel Cymru i gynorthwyo rhai cyrff anllywodraethol bach i fanteisio ar ddata. Bydd cynnwys hyn, a data gweithredu cenedlaethol (y DU) yn helpu i hysbysu ac annog partneriaid a phrosiectau i ddefnyddio'r system a chyfrannu ati.

Bydd yr ymdrechion cyntaf i fewnforio data yng Nghymru yn canolbwyntio ar ddata Cynllun Amaeth-Amgylcheddol Cymru, i sicrhau bod gwaith y Cynllun yn cael ei gynrychioli yn BARS. Bydd cynrychioli hyn yn BARS yn helpu i ddarparu gwybodaeth i bartneriaethau lleol ac yn sicrhau eu bod yn gallu cynllunio a thargedu eu camau gweithredu bioamrywiaeth yn well. Y bwriad yw canolbwyntio'r ymdrech gyntaf ar opsiynau bioamrywiaeth o dan yr elfennau a dargedwyd yn y cynllun Glastir Uwch. Bydd y gwaith yn cael ei gefnogi gan Natural England sydd eisoes wedi cwblhau'r gwaith hwn yn Lloegr. Bydd y camau gweithredu a fydd ar waith trwy Glastir a data'r safleoedd o gronfa ddata

safleoedd y Cyngor Cefn Gwlad yn rhoi darlun llawer mwy cynhwysfawr o gamau gweithredu ar gynefinoedd a rhywogaethau yng Nghymru.

## Cyfraniad BARS at adrodd yng Nghymru

Ar ôl sefydlu'r Un Corff Amgylcheddol a chwblhau'r adolygiad o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru byddwn yn adeiladu ar waith y cynlluniau peilot i weld sut y gellir defnyddio BARS i gefnogi'r broses o ddarparu dull ecosystem yng Nghymru ac adrodd arno. Yn y cyfamser, fodd bynnag, gall data gweithredu o BARS gyfrannu ac ychwanegu gwerth at adrodd yn erbyn nifer o dargedau sydd wedi'u cynnwys yn Nangosyddion Bioamrywiaeth y DU, sef A3; B1a; B1b; B6; C2;C3; D2 (Atodiad 01) yn fwyaf arbennig.

Er na all BARS helpu i fonitro neu adrodd yn ffurfiol ar gyflwr ffafriol, mae Grŵp Bioamrywiaeth Tirol Lloegr wedi diffinio cyflwr adferol i gynnwys cynefin sydd o dan reolaeth briodol, h.y. rheolaeth sy'n debygol o arwain at sicrhau cyflwr ffafriol. O ganlyniad, gall BARS helpu i adrodd ar gamau gweithredu sy'n cyfateb i reolaeth briodol ar safleoedd lle na wyddom beth yw cyflwr y cynefin na'r trefniadau rheoli fel arall. Yn y rhan fwyaf o achosion, camau rheoli cynefin nad ydynt yn cael eu darparu drwy gynlluniau amaeth-amgylcheddol ac sy'n digwydd y tu allan i SODdGA fydd y rhain.

## Datblygiad Ychwanegol

Cytunwyd ar y rhaglen ddatblygu i'r pedair gwlad ar gyfer 2013/14, a bydd yn cael ei chyflwyno fesul cam dros y 3-5 mis nesaf. Bydd y datblygiad hwn yn cynyddu gallu BARS i gefnogi gwaith cynllunio ac adrodd ar weithredu'n sylweddol. Bydd y cynlluniau peilot cyfredol yn llywio rhaglen ddatblygu ar gyfer 2013/14.

### Pwyntiau Penderfynu

- Cymeradwyo gwaith Cymru gyda'r BARS a chefnogi buddsoddiad parhaus yn y prosiect hwn.
- Cytuno bod gan BARS rôl i gefnogi ymrwymiadau adrodd yr Un Corff Amgylcheddol newydd, a 'Cymru Fyw' yn cynnwys ymrwymiad i brofi BARS fel dull adrodd ar gyfer unrhyw brosiectau peilot Cymru Fyw
- Cytuno ar ffocws cychwynnol Camau Gweithredu Bioamrywiaeth Elfen wedi'i Thargedu Glastir (Glastir Uwch) a gofyn i Lywodraeth Cymru weithio gyda Phartneriaeth Bioamrywiaeth Cymru i hyrwyddo'r gwaith hwn yn 2013/14.
- Annog defnydd/profi yn eich sefydliadau eich hunain gyda golwg ar ddatblygu data BARS yn cynnwys sicrhau bod staff priodol yn cael eu clustnodi sydd â'r sgiliau/amser i ddefnyddio'r system yn effeithiol.
- Sefydliadau partner i gytuno i hyrwyddo trefniadau cydweithio gyda Chynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol trwy ddefnyddio BARS pan fo hyn yn ychwanegu gwerth i waith cynllunio ac adrodd ar weithredu bioamrywiaeth lleol a/neu waith eich sefydliad chi.

**Grŵp Llywio 18 PBC**
**PAPUR 02: ATODIAD 01**
**14eg Tachwedd 2012**

## Bioamrywiaeth 2020: Strategaeth ar gyfer gwasanaethau bywyd gwyllt ac ecosystemau Lloegr[1]. Canlyniadau 1a, 1b a 3

- **Canlyniad 1A:** Cynefinoedd bywyd gwyllt gwell gyda 90% o gynefinoedd â blaenoriaeth mewn cyflwr ffafriol neu'n gwella ac o leiaf 50% o SODdGA mewn cyflwr ffafriol, gan gynnal o leiaf 95% mewn cyflwr ffafriol neu'n gwella.

- **Canlyniad 1B:** Rhagor o ardaloedd mwy a llai tameidiog ar gyfer bywyd gwyllt, heb golli cynefin â blaenoriaeth a chynyddu cwmpas cynefinoedd â blaenoriaeth yn gyffredinol o leiaf 200,000 ha.

- **Canlyniad 3:** Erbyn 2020, byddwn yn gweld gwelliant cyffredinol yn statws ein bywyd gwyllt ac wedi atal achosion pellach o rywogaethau dan fygythiad yn diflannu dan law pobl.

## Dangosyddion Bioamrywiaeth y DU [2] A3; B1a; B1b; B6; C2; C3; D2.

- **A3:** Gwerth cynnwys bioamrywiaeth yn y broses o wneud penderfyniadau
- **B1a:** Ardal o dir mewn cynlluniau amaeth-amgylcheddol
- **B1b:** Ardal o dir coedwigaeth wedi'i ardystio fel tir sy'n cael ei reoli'n gynaliadwy
- **B6:** Pwysau gan rywogaethau ymledol
- **C2:** Cysylltedd cynefinoedd
- **C3:** Statws cynefinoedd dan fygythiad
- **D2:** Gwasanaethau bioamrywiaeth ac ecosystemau (arall)

---
[1] http://www.defra.gov.uk/publications/files/pb13583-biodiversity-strategy-2020-111111.pdf
[2] http://jncc.defra.gov.uk/page-4229

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**WBPSG18**
**PAPUR 04**
**14eg Tachwedd 2012**

***Teitl: Y wybodaeth ddiweddaraf am Brosiectau Grŵp Swyddogion Bioamrywiaeth Awdurdodau Lleol a'r Parciau Cenedlaethol***

***Crëwyd gan: Grwpiau Swyddogion Bioamrywiaeth Awdurdodau Lleol a'r Parciau Cenedlaethol***

### *Cefndir/Cynnydd*

Mae swyddogion bioamrywiaeth awdurdodau lleol a'r Parciau Cenedlaethol o'r Gogledd a'r De yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion o ddiddordeb cyffredin ac er mwyn bwrw ymlaen â mentrau rhanbarthol a mentrau ar cyd. Mae'r papur hwn yn crynhoi rhai o'r llwyddiannau, y prosiectau rhanbarthol a'r prosiectau sydd ar y gweill ledled ardaloedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Cymru.

| **Teitl y prosiect:** Arolygon safleoedd bywyd gwyllt | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Cynhelir gwaith safleoedd bywyd gwyllt yn nifer o awdurdodau lleol y Gogledd. Cafodd Gwynedd a Sir y Fflint gyllid drwy'r grant gwella cynllunio i ymgymryd â'r gwaith hwn. Mae Gwynedd wrthi'n cynnal arolwg ar sampl o safleoedd bywyd gwyllt posibl. Yn Sir y Fflint, bydd Cofnod - canolfan cofnodion y Gogledd - yn cynnal adolygiad pen desg o ffiniau a chasglu data ar lawr gwlad yn y dyfodol. Cynhaliwyd prosiect tebyg yn Ynys Môn eisoes. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (y Cynllun)** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Gall gwella safleoedd bywyd gwyllt wella'r gallu i storio carbon, gwerth bywyd gwyllt, peillio | Cyngor Sir Gwynedd, Sir y Fflint ac Ynys Môn | Emily Meilliuer EmilytheaMeilleur@gwynedd.gov.uk Sarah Slater sarah.slater@flintshire.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Gwella'r sail dystiolaeth ar gyfer polisi cynllunio | | |

| **Teitl y prosiect:** Prosiect gweirgloddiau | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Prosiect bach sy'n ymchwilio'r ymarferoldeb o greu prosiect gweirgloddiau, er mwyn nodi gweirgloddiau a gweld a oes marchnad ar gyfer gwair a pharu'r cynhyrchwyr â'r rhai sydd eisiau prynu gwair. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Posibilrwydd o wella cynefinoedd tir glas, gwella storio carbon, peillio | Cyngor Sir Gwynedd | Emily Meilleur EmilytheaMeilleur@gwynedd.gov.uk |
| **Buddiannau** | Rhagor o gymhelliant i | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **bioamrywiaeth** | greu gweirgloddiau | | |

| **Teitl y prosiect:** Prosiect adfer perllannau'r Gogledd-ddwyrain | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Cafodd y prosiect hwn, a gyllidir gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop, ei roi ar waith y llynedd gan gynnwys plannu 1000 o goed ffrwythau traddodiadol ar 50 o safleoedd cymuned, ysgol a phreifat, ymweld ag ysgolion, creu llyfryn cyflwyniad i reoli perllannau a chynnal gweithdy rheoli llwyddiannus. Byddwn yn plannu coed newydd y gaeaf hwn yn lle'r rhai a gollwyd yn y flwyddyn gyntaf trwy golledion naturiol. Rydym yn gobeithio parhau ag elfennau addysgol y prosiect trwy gyfrwng Plas Derw, ysgol goedwig Sir y Fflint. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Cynhyrchu bwyd, ffyrdd iach o fyw, bywyd gwyllt trefol, peillio | Cyngor Sir y Fflint, Cyngor Sir Ddinbych | Sarah Slater sarah.slater@flintshire.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Creu a gwella | | |

| **Teitl y prosiect:** Prosiect codi ymwybyddiaeth o Nant Swinchiard | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Yn dilyn cais llwyddiannus i Gronfa Dreftadaeth y Loteri, mae'r prosiect cymuned hwn dan arweiniad TCV yn canolbwyntio ar wella'r defnydd cymunedol o faes gwyrdd trefol. Mae cofnodi biolegol a chynhyrchu pecynnau gweithgarwch athrawon a chymunedol yn rhan ganolog o'r prosiect. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Bywyd gwyllt trefol, ansawdd bywyd, addysg | Cyngor Sir y Fflint | Sarah Slater sarah.slater@flintshire.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Codi ymwybyddiaeth, cofnodion biolegol | | |

| **Teitl y prosiect :** Prosiect Gwella Bioamrywiaeth (CBS Conwy) ac Archwiliad NERC (Cyngor Sir Ddinbych) | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Cynhaliwyd archwiliad bioamrywiaeth llwyddiannus gan Gyngor Ymchwil yr Amgylchedd Naturiol (NERC) yn Sir Ddinbych, gydag adrannau'n cytuno i gymryd camau i wella bioamrywiaeth.<br>Yng Nghonwy, crëwyd cynllun gwella yn sgil adolygiad o berfformiad bioamrywiaeth, wedi'i ardystio gan y Bwrdd Rhaglenni Gwyrdd. Mae'r Bwrdd, sy'n cynnwys aelodau a swyddogion, yn gyfrifol am oruchwylio holl brosiectau amgylcheddol y Cyngor (gan gynnwys lleihau carbon, ecosgolion). Cyflwynir adroddiad bob chwarter i'r bwrdd ynghylch gweithredu'r cynllun gwella, sy'n sicrhau ymrwymiad lefel uchel i'r prosiect ar draws y Cyngor. Nid yw hyn yn golygu bod gweithredu'r prosiect yn dasg hawdd, ond mae ymrwymiad ar y lefel uchel gorfforaethol hon yn hwb mawr heb os! | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Posibilrwydd creu ardal | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Anne Butler Anne.Butler@conwy.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Ymwybyddiaeth a chamau gweithredu arfaethedig | | |

| **Teitl y prosiect:** Ardaloedd Bioamrywiaeth | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Mae ymwybyddiaeth o ardaloedd Bioamrywiaeth y Cyngor yn cynyddu gyda phrosiect arwyddion eang sy'n esbonio pam mai dim ond unwaith y flwyddyn rydym yn torri glaswellt. Mae'r ardaloedd hyn yn dechrau cael mwy o sêl bendith gwleidyddol ac yn cael eu cynnig fel ffordd o arbed arian i'r Cyngor. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Cynnydd mewn bioamrywiaeth, gwelliannau i beilwyr, storio carbon, ansawdd bywyd, bywyd gwyllt trefol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy | Anne Butler Anne.Butler@conwy.gov.uk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Wedi creu 40 o ardaloedd bioamrywiaeth | | |

| **Teitl y prosiect:** Prosiect Adfer Mawndiroedd (parhaus) | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Adfer ardal o gynefin gorgors/cyforgors yn Ffridd Ucha, ger Rhyd Ddu. Byddwn yn blocio tua 17km o ddraeniau yn llwyr fel rhan o'r prosiect. Mae'r safle wedi'i ffensio/farcio'n barod, a disgwylir i'r gwaith o lenwi'r ffosydd gychwyn ym mis Hydref 2012. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Rheoleiddio dŵr<br>Rheoleiddio'r hinsawdd | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Gethin Davies<br>g.davies@eryri-npa.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Adfer tua 30 hectar o orgors | | |

| **Teitl y prosiect**: Rheoli Jac y Neidiwr (2010 – presennol) | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Rheoli Jac y Neidiwr rhag lledaenu o amgylch Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig/Safle Cadwraeth Arbennig Llyn Tegid. Cafodd ei arolygu a'i fonitro gan wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri yn 2010, a chynhaliwyd rhaglenni gwaith dros y ddau haf diwethaf (2011 a 2012) er mwyn rheoli'r rhywogaeth oresgynnol hon (wardeiniaid Parc Cenedlaethol Eryri, Coleg Meirion Dwyfor, grwpiau Sgowtiaid a'r gangen Rotari leol). Mae tua 10km o lannau'r afon wedi'u clirio hyd yma, a thros 700 o fagiau o Jac y Neidiwr wedi'u casglu. Byddwn yn parthau â'r gwaith y flwyddyn nesaf, gyda'r nod o'i ehangu i ddalgylchoedd eraill y Parc. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Rheoleiddio dŵr, gwella bioamrywiaeth | Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri | Gethin Davies<br>g.davies@eryri-npa.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol Anfrodorol | | |

| **Teitl y prosiect**: Prosiect y Dylluan Wen | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Mae'r prosiect hwn yn saith oed eleni, ac rydym wedi gosod blychau tylluanod gwyn ledled siroedd y Gogledd-ddwyrain. Er mai dyma fydd blwyddyn ola'r prosiect, mwy na thebyg, bydd arbenigwyr trwyddedig a gwirfoddolwyr yn dal i gadw llygad ar y blychau hyn. Mae llawer iawn o dylluanod gwyn sy'n bridio yn defnyddio'r blychau hyn, sy'n awgrymu bod galw mawr amdanynt wrth i ni golli'r safleoedd bridio naturiol. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Amherthnasol | Cynghorau Wrecsam, Sir Ddinbych a Sir y Fflint | Emma Broad<br>Emma.broad@wrexham.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Cynyddu dealltwriaeth o boblogaethau tylluanod gwyn, creu cynefin | | |

| **Teitl y prosiect**: Grŵp Gorchwyl a Gorffen INNS Sir Benfro | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Archwilio statws rhywogaethau goresgynnol anfrodorol (INNS) yn Sir Benfro ar hyn o bryd a'r bygythiadau posibl. Ceisio blaenoriaethu ymdrechion a hyrwyddo rhannu gwybodaeth ar draws sefydliadau partner. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Rhy gynnar i adrodd | Sir Benfro | anthony.rogers@pembrokeshire.gov.uk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Rhy gynnar i adrodd | | |

| **Teitl y prosiect**: Prosiect Bwydo Adar Ffermdir dros y Gaeaf | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Gan gydweithio â ffermwr lleol, mae grwpiau adar a chofnodwyr adar yn darparu porthiant atodol i rywogaethau adar y gaeaf a chofnodi'r effaith ar boblogaethau lleol. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | | Bro Morgannwg | acrowe@valeofglamorgan.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Cynyddu cynefinoedd ar gyfer rhywogaethau adar ac anifeiliaid di-asgwrn-cefn yn ardal y Cynllun | | |

| **Teitl y prosiect**: Rheoli Rhywogaethau Goresgynnol Afon Ewenni | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect**: Sefydlwyd gan Weneirwyr Pen-coed. Bydd aelodau o Bartneriaeth Bioamrywiaeth Pen-y-bont ar Ogwr yn cydweithio i gydlynu dull strategol o ddileu a rheoli rhywogaethau anfrodorol yn nalgylch afon Ewenni. Cynhaliwyd digwyddiadau 'Balsam Bashing' gan bysgotwyr a'r swyddog prosiect Biodiversity in Common yn rhan ucha'r dalgylch afon yn 2012. Y gobaith yw datblygu'r prosiect gyda chysylltiad parhaol rhwng partneriaid a rhagor o dirfeddianwyr. Yr uchelgais yw ehangu'r prosiect i afonydd eraill ym Mhen-y-bont. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Dŵr Croyw | Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg | Geoff Hobbs<br>Geoffrey.hobbs@bridgend.gov.uk<br>01656 643196 |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Dileu rhywogaethau goresgynnol | Pen-y-bont ar Ogwr a Bro Morgannwg | |

| **Teitl y prosiect**: Arolwg o ansawdd/darnio cynefin llygod pengrwn y dŵr | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Bydd y prosiect hwn yn ystyried y cysylltiadau, ansawdd cynefinoedd a chyfleoedd gwella yng nghynefinoedd hysbys llygod y dŵr ym Morfa Berwig, Llanelli. Bydd yr arolwg yn cynnwys creu map/haen System Wybodaeth Ddaearyddol sy'n dangos:<br>• ardaloedd o gynefinoedd da ar hyn o bryd,<br>• cynefin is-optimaidd y gellid ei wella,<br>• safleoedd lle gellir creu cynefin i gysylltu â'r uchod, ac ati, gyda rhywfaint o gyfraniad (a chymorth o bosib!) gan dirfeddianwyr yn ddelfrydol.<br>Gellir defnyddio hyn wedyn i greu cais am arian allanol, a'i gysylltu â strategaethau eraill fel angen Dŵr Cymru i storio dŵr wyneb yn y dalgylch. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu – Sir Gaerfyrddin** | **Cyswllt**<br>**Isabel Macho –**<br>IMacho@carmarthenshire.gov.uk |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Atal llifogydd/storio dŵr | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Cynyddu cynefin addas i lygod y dŵr, gwella porfa arfordirol, cynefinoedd corstir a gwlypdir. Gwella'r cysylltiad rhwng cynefinoedd addas. | | |

| **Teitl y prosiect**: Brithribin brown – prosiect gwirfoddol i gynnal arolwg o wyau'r gaeaf a rheoli cynefinoedd | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Cynnal arolwg a monitro'r poblogaethau pwysig o loÿnnod brithribin brown yn Sir Gâr a gweithio gyda thirfeddianwyr i gynnal gwaith rheoli cynefin - ar berthi ac ardaloedd prysgwydd. Ymgysylltu â gwirfoddolwyr, digwyddiadau cyhoeddus a chodi ymwybyddiaeth. Mae'r prosiect yn ddeg oed erbyn hyn. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu - Sir Gaerfyrddin** | **Cyswllt**<br>**Isabel Macho –** IMacho@carmarthenshire.gov.uk |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Perthi wedi'u rheoli'n dda:<br>• atal colli pridd o gaeau.<br>• lleihau nifer y gwrteithiau llygredig, plaladdawyr a gwaddodion sy'n cyrraedd cyrsiau dŵr<br>• rheoleiddio'r cyflenwadau dŵr ar gyfer cnydau<br>• lleihau'r cyfraddau llif dŵr o fewn dalgylchoedd<br>Gwasanaethau Diwylliannol – gwerth perthi – rhan bwysig o dirwedd Sir Gâr | | |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Cynyddu cynefinoedd perthi/prysgdir ar gyfer y brithribin brown, creu rhagor o gysylltiadau â chynefinoedd addas. | | |

| **Teitl y prosiect**: Lle chwarae naturiol a bywyd gwyllt Llechryd | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Gan weithio gyda RAY Ceredigion (cylch chwarae sydd wedi'i ariannu i wella safleoedd chwarae ledled y sir) a chymdeithas Tai Cantref, aethpwyd ati i greu'r lle chwarae naturiol a bywyd gwyllt cyntaf mewn safle datblygu yng Ngheredigion. Mae'r safle'n cynnwys pentyrrau o foncyffion coed, gwesty pryfed, planhigion cynhenid, gwelyau peillio a dôl blodau gwyllt, yn ogystal â chromen helygen, twmpathau â phlanciau pren arnynt, canghennau coed wedi cwymp a mainc wal garreg (nid cerrig sych fel y bwriadwyd yn wreiddiol) yn anffodus. Lle chwarae concrid fyddai'r safle hwn fel arall. Er nad yw'n berffaith o bell ffordd, ac er bod gwersi i'w dysgu, dyma'r lle chwarae cyntaf o'i fath yng Ngheredigion, ac mae RAY Ceredigion a Tai Cantref yn gobeithio gwneud rhagor o waith tebyg yn y dyfodol. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Cadw dŵr<br>Puro'r aer<br>Peillio cnydau<br>Dal a storio carbon<br>Rheoli'r hinsawdd | Ceredigion | Leanne Bird<br>Leanne.bird@ceredigion.gov.uk<br>01545 572142 |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Dôl iseldir<br>Coed stryd | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Bwyd a chynefin i beillwyr a phryfed eraill<br>Codi ymwybyddiaeth o RAY Ceredigion, Tai Cantref a'r trigolion. | | |

| **Teitl y prosiect:** Prosiect Tegeirian y Wenynen | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Prosiect i ddiolgeu a rheoli dwy ardal yng Nghasnewydd er mwyn gwarchod Tegeirian y Wenynen | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | | Cyngor Dinas Casnewydd | Lucy Kelly<br>Lucy.kelly@newport.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Diogelu rhywogaethau sy'n edwino | | |

| **Teitl y prosiect:** Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Prosiect i nodi Mannau Gwyrdd Naturiol Hygyrch yng Nghasnewydd | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | | Cyngor Dinas Casnewydd | Lucy Kelly<br>Lucy.kelly@newport.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Cadw mannau gwyrdd | | |

| **Teitl y prosiect:** Plannu coed ar safle tirlenwi Maesglas | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Prosiect plannu coed i wella bioamrywiaeth, darparu sgriniau a chyfrannu at brosiect Ysgyfaint Gwyrdd. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | | Cyngor Dinas Casnewydd | Lucy Kelly<br>Lucy.kelly@newport.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Gwella Bioamrywiaeth, cyfrannu at gynigion Ysgyfaint Gwyrdd | | |

| **Teitl y prosiect:** Prosiect Bwydo Adar yn y Gaeaf | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Bwrw ymlaen â'r Prosiect Bwydo Adar yn y Gaeaf. Ychwanegu dwy ardal newydd, a monitro a rheoli'r ardaloedd hyn. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | | Cyngor Dinas Casnewydd | Lucy Kelly<br>Lucy.kelly@newport.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Codi ymwybyddiaeth o gadwraeth bioamrywiaeth.<br>Er lles adar ffermdir<br>Annog cymunedau eraill i fabwysiadu'r un prosiect | | |

| **Teitl y prosiect:** Prosiect Tirweddau Anghofiedig |
|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Mae 'Tirweddau Anghofiedig' yn disgrifio'r ardal sy'n cwmpasu Tiroedd Ddiwydiannol Blaenafon, Safle Treftadaeth y Byd yn y De-ddwyrain. Cafodd y dirwedd hon sydd o bwysigrwydd byd-eang ei ffurfio dros ganrifoedd lawer, trwy ymdrechion natur a dyn. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Yn ystod y Chwyldro Diwydiannol, roedd y bryniau o amgylch Blaenafon yn frith o byllau glo a chwareli, wedi'u hagru gan domenni glo, gyda thramffyrdd a rheilffyrdd yn croesi'r cwm. Fodd bynnag, dechreuodd y dirwedd fynd yn angof wrth i ddiwydiannau'r ardal gau. Dros amser, dechreuodd llystyfiant ail-gytrefu'r hen domenni a dychwelodd bywyd gwyllt bob yn dipyn.<br><br>Heddiw, mae'r dirwedd arbennig hon yn llawn hanes a bywyd gwyllt, ac yn rhan allweddol o'n dealltwriaeth o dreftadaeth yr ardal. Mae'r ardal bellach yn ganolbwynt Prosiect Tirweddau Anghofiedig. Nod y cynllun uchelgeisiol hwn yw rheoli'r cynefin naturiol a bywyd gwyllt yr ardal, a gwarchod a chadw'r nodweddion hanesyddol sy'n creu cymeriad unigryw'r dirwedd leol. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Darparu – Addysg a rheoli bwydydd gwyllt, gan gynnwys helgig, ffyngau, mel ac ati, yn ogystal â chynhyrchu trydan dŵr gan leihau ôl troed carbon a defnyddio llai o danwydd ffosil.<br>Rheoli – Lliniaru llifogydd, gwella ansawdd dŵr<br>Cefnogi – Gwella cyfleoedd peillio a chysylltedd<br>Diwylliannol – Annog hamdden a mwyniant cynaliadwy yn hytrach na gweithgareddau hamdden anaddas, addysg ar asedau hanesyddol, hyfforddiant i adnabod rhywogaethau/cynefinoedd ac ati. | Cyngor Bwrdeistref Torfaen | Kris Roberts<br>Kris.roberts@torfaen.gov.uk<br>http://www.forgottenlandscapes.org.uk/the-project/ |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Rheoli gweundiroedd<br>Rheoli rhedyn<br>Creu pyllau dŵr / gwelyau cyrs<br>Rheoli pori<br>Rheoli'r grugiar coch a'r gornchwiglen | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y prosiect:** Prosiect Parc Bute | | | |
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Sefydlwyd y prosiect hwn gan Gyfeillion Parc Bute, ac mae'n cynnwys dwy elfen. Yr elfen gyntaf yw newid y drefn torri gwair mewn rhai ardaloedd er mwyn gwella amrywiaeth rhywogaethau; cynhelir arolygon o'r ardaloedd hyn yn 2012 er mwyn asesu'r gronfa hadau ar hyn o bryd. Yr ail elfen yw treialu dulliau gwahanol gyda'r Grŵp Cyfeillion er mwyn eu helpu i gasglu gwybodaeth am gamau biolegol a chadwriaethol. Roedd hyn yn cynnwys creu tudalen photobucket a darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r dull hwn ac iSpot. Rhoddwyd hyfforddiant hefyd ar nodi rhywogaethau dangosol ar gyfer cynefinoedd amrywiol a'r cymhorthion adnabod a gynhyrchwyd. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | | Caerdydd | Laura Palmer<br>lpalmer@cardiff.gov.uk<br>029 2087 3268 |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Adfer/creu glaswelltir niwtral, codi ymwybyddiaeth, cofnodi rhagor o rywogaethau amrywiol – fel prosiect rhagarweiniol, bydd manteision/buddion yn cael eu cyfrifo'n ddiweddarach. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y prosiect:** Prosiectau Asedau Naturiol | | | |
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Adfer, cynnal ac ychwanegu gwerth i dreftadaeth naturiol Sir Fynwy. Mae Cyngor Sir Fynwy wedi contractio Ymddiriedolaeth Bywyd Gwyllt Gwent i gefnogi'r gwaith o gadw a gwarchod Safleoedd o Bwysigrwydd Cadwraeth Natur ac annog cyfraniad lleol ar lawr gwlad. Cefnogir hyn drwy ddarparu grantiau cyfalaf bach i grwpiau cymuned lleol neu dirfeddianwyr unigol er mwyn cynnal a gwella'r "asedau naturiol" hyn. Dyma un o gyfres o brosiectau a ariennir dan Echel 3 y Cynllun Datblygu Gwledig (gydag arian cyfatebol gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru) ac mae'n rhan o Gynllun Busnes 2 ar gyfer y cyfnod Mawrth 2011 – Rhagfyr 2013. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Pob un | Sir Fynwy | Danielle Fry<br>daniellefry@monmouthshire.gov.uk<br>01633 644963 |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Rheoli safleoedd pwysig yn well<br>Mwy o safleoedd wedi'u nodi, ac felly wedi'u hosgoi, lliniaru neu eu digolledu drwy'r broses gynllunio. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y prosiect:** Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth adrannau mewnol | | | |
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Crëwyd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Hawliau Tramwy Cyhoeddus gyda'r nod o sicrhau bod pawb yn ystyried bioamrywiaeth wrth gynllunio a gwneud unrhyw waith cynnal a chadw, cynlluniau gwella a gwaith arall i hawliau tramwy cyhoeddus. Cafodd y ddogfen ei chwblhau'n llwyddiannus yn 2011, ond mae'r broses o'i darparu yn parhau. Rydym newydd ddechrau cyflwyno'r prosiect ar draws adrannau eraill, a'r rhai cyntaf fydd ein timau priffyrdd a chynnal a chadw tiroedd. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Pob un | Sir Fynwy | Danielle Fry<br>daniellefry@monmouthshire.gov.uk<br>01633 644963 |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Rhagor o ystyriaeth i gynefinoedd a rhywogaethau pwysig, gwarchod a gwella mwy ohonynt. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y prosiect**: Archwiliad Bioamrywiaeth Cyngor Sir Powys | | | |
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Prosiect dwy ran: Cam un yw astudiaeth casglu data ar holl dirddaliadau Cyngor Sir Powys sydd wedi'u mapio i weld faint o dirddaliadau lled-naturiol sydd ar draws holl feysydd gwasanaeth y sir, a'u hansawdd. Mae daliadau wedi'u croesgyfeirio â rhai setiau data hysbys e.e. coetir hynafol, safleoedd dynodedig, Cam 1 ac ati, yn ogystal â pha mor agos ydynt i gymunedau lleol a'r rhwydwaith hawliau tramwy lleol. Bydd cam dau yn cynnwys dadansoddi lluniau o'r awyr a chofnodion rhywogaethau hysbys yn ogystal â chasglu data ar lawr gwlad yn y dyfodol er mwyn creu set ddata fanwl wedi'i mapio o safleoedd er mwyn i) darparu gwybodaeth llinell sylfaen am gynefinoedd Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth er mwyn cyflawni'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol a ii) nodi'r cyfleoedd sydd ar gael o fewn ystadau Cyngor Sir Powys i wella bioamrywiaeth a/neu wella mynediad cyhoeddus i fannau gwyrdd lle bo'n bosibl. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | | Powys | Emma Guy<br>emma.guy@powys.gov.k<br>01597 827599 |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | | | |

| **Teitl y prosiect**: Cysylltiadau Cefn Gwlad – Rhwydwaith Natur Abertawe, daw i ben yn 2014 | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Dyma brosiect newydd cyffrous sy'n cysylltu pobl â'u cefn gwlad lleol. Trwy arian gan y Cynllun Datblygu Gwledig, nod y prosiect yw darparu cyfleoedd dysgu, gwirfoddoli ac ariannu i bobl a chymunedau ledled Abertawe wledig, a'u helpu nhw i werthfawrogi, gofalu am a mwynhau eu hamgylchedd lleol.<br><br>Mae Cysylltiadau Cefn Gwlad wedi'i ariannu'n benodol i weithio gyda ac er budd cymunedau gwledig. O'r herwydd, mae digwyddiadau a gweithgareddau'r prosiect wedi'u cyfyngu i wardiau gwledig Abertawe – Gŵyr, Mawr, Pennard, Pontarddulais, Fairwood, Llangyfelach, Llandeilo Ferwallt a Phenclawdd.<br><br>Digwyddiadau: Gall ein rhaglen o ddigwyddiadau cyffrous eich helpu i weld a chlywed yr holl gyfoeth o fywyd gwyllt sy'n byw ar garreg ein drws. Dysgwch sut i adnabod mamaliaid, adar, gloÿnnod byw, planhigion a chreaduriaid lleol eraill sy'n cyfrannu at gyfoeth bioamrywiaeth Abertawe.<br><br>Gwirfoddoli: Gallwn roi cyfle i chi wirfoddoli yn rhai o safleoedd bywyd gwyllt gorau Abertawe, lle gallwch ddysgu pob math o sgiliau cefn gwlad a chadwraeth wrth helpu i wella cynefinoedd ar gyfer ein planhigion a'n hanifeiliaid. Does dim angen profiad blaenorol arnoch, ond mae croeso i chi rannu unrhyw sgiliau â ni.<br><br>Addysg: Trwy Wobr John Muir, rydym yn cydweithio ag ysgolion lleol er mwyn helpu plant i ddarganfod, archwilio, gwarchod a rhannu llefydd gwyllt.<br>Mae'r prosiect hwn wedi'i ariannu'n rhannol drwy Gronfa Datblygu Gwledig Cymru 2007-2013, a ariennir gan Lywodraeth Cymru a'r Undeb Ewropeaidd. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | ? | Abertawe | 01792 635777<br>helen.grey@swansea.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | ? | | |

| **Teitl y prosiect:** Rhwydwaith Natur Abertawe – Cymunedau a Natur – daw i ben 2014? | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Menter arloesol yw Cymunedau a Natur sy'n manteisio i'r eithaf ar amgylchedd naturiol Abertawe trwy hyrwyddo a gwella mynediad i, a'r mwynhad o ddefnyddio rhwydwaith o 12 safle bywyd gwyllt a mannau agored naturiol.<br>Mae'r safleoedd yn cynnwys: Rhos Cadle, Comin Mynydd Cadle, Coridor Bywyd Gwyllt Hillside, Fferm y Garth, Rhos Cilâ, Coetir Cymunedol Cilfái.<br>Mae'r gweithgareddau a gyflawnwyd yn cynnwys: sefydlu'r brand Rhwydwaith Natur, marchnata Rhwydwaith Natur Abertawe fel cyrchfan, darparu pyrth croesawgar i safleoedd, darparu deunyddiau dehongli dwyieithog, datblygu llwybrau rhwng safleoedd gyda darparwyr gwasanaethau, cael gwared ar rwystrau ffisegol i safleoedd, a darparu rhwydwaith cydlynol o lwybrau troed mewnol.<br>Mae Cymunedau a Natur (CAN) yn un o brosiectau strategol y Rhaglen Gydgyfeirio, a chaiff ei chydlynu gan Gyngor Cefn Gwlad Cymru. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | ? | Abertawe | 01792 635777<br>Lea.Halborg@swansea.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | ? | | |

| **Teitl y prosiect**: Ailgysylltu Dreigiau De Cymru |
|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect:** Cais Ymddiriedolaeth Gwarchod Amffibiaid ac Ymlusgiaid (ARC) i Gronfa Cryfder ac Amrywiaeth Ecosystemau Llywodraeth Cymru 2012/13.<br>Bydd y prosiect yn creu cynefinoedd ar safleoedd yn y De, wedi'u cynllunio i gysylltu poblogaethau hysbys o rywogaethau blaenoriaeth y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth (madfall ddŵr gribog, llyffantod dafadennog a phob ymlusgiai) trwy |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gynnwys y gymuned, hyfforddiant, cynnal arolygon a gwaith cynefin ymarferol. Nod penodol y prosiect fydd creu rhwydweithiau o byllau dŵr, cynefinoedd mosaig agored ac ardaloedd o gorlwyni sy'n cysylltu ag ymylon coetiroedd collddail.<br>Bydd cyfnod creu'r cynefin arfaethedig yn ystod misoedd y gaeaf 2012/13 hefyd o fudd i blanhigion, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, adar a mamaliaid bach niferus yn ogystal ag amffibiaid ac ymlusgiaid.<br>Hefyd, bydd sgyrsiau a hyfforddiant ar gael i wirfoddolwyr mewn technegau arolygu amffibiaid ac ymlusgiaid. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | **Gwasanaethau darparu:** Adnoddau dŵr croyw / geneteg aer **Gwasanaethau rheoli:** gwella ansawdd aer, rheoli'r hinsawdd, rheoli llifogydd, rheoli sŵn, clefydau peillio / rheoli plâu / puro dŵr / aer / pridd **Gwasanaethau diwylliannol:** hamdden / gwella ymddangosiad esthetig / hyfforddiant, iechyd / lles **Gwasanaethau ategol:** ailgylchu maethiad/ dŵr, cynhyrchu sylfaenol, ffurfiant pridd | Y De | Amphibian and Reptile Conservation (ARC Peter Hill Peter.Hill@arc-trust.org |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Rhywogaethau gwlypdir y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y prosiect**: Buglife Gorllewin Morgannwg, Cerrig Llamu i Fywyd Gwyllt | | | |
| **Disgrifiad o'r prosiect**: Mae cynllun Buglife WREN (Amgylchedd Ailgylchu Gwastraff) wedi'n galluogi ni i gynnal prosiect tair blynedd ar bum safle tir llwyd.<br>Buglife Abertawe a Chastell-nedd Port Talbot, Dinas a Sir Abertawe, entomolegwyr a phobl leol sy'n frwd dros fywyd gwyllt.<br>Cynhelir gwaith arolygu rhwng mis Ebrill a mis Medi 2013, a rhoddir hyfforddiant ar bob math o ddulliau samplu fel rhwydo, chwilio yn y fan a'r lle, maglau a thrapiau amrywiol. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | **Gwasanaethau darparu:** Neithdar / paill, dŵr croyw, awyr iach, adnoddau geneteg **Gwasanaethau rheoli:** gwella ansawdd aer, rheoli'r hinsawdd, perygl uchder llifogydd, rheoli sŵn, peillio, rheoli heintiau/ plâu, puro dŵr/aer/pridd **Gwasanaethau diwylliannol:** hamdden/ gwella ymddangosiad esthetig, addysg/ hyfforddiant iechyd/ lles, perchnogaeth gymunedol **Gwasanaethau ategol:** ailgychlu maethiad/ dŵr, cynhyrchu sylfaenol, ffurfiant pridd | Abertawe | 01792 635784 jo.mullett@swansea.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Cynefinoedd mosaig agored ar dir wedi'i ddatblygu'n flaenorol cynnal glaswelltir, anifeiliaid di-asgwrn-cefn, mamaliaid, adar | | |

| |
|---|
| **Teitl y prosiect**: Darganfod Coetir Hynafol Abertawe a Gŵyr – arfaethedig – disgwyl penderfyniad gan Gronfa |

Dreftadaeth y Loteri

**Disgrifiad o'r prosiect:** Mae "Cynefin: Olrhain Ymdeimlad Cymru o Le" yn brosiect Cronfa Dreftadaeth y Loteri ar gyfer Cymru gyfan gan Gyngor Archifau a Chofnodion Cymru, gyda'r nod o ddigido mapiau degwm Cymru.
Estyniad lleol o'r prosiect hwn yw "Darganfod coetir hynafol Abertawe a Gŵyr", prosiect partneriaeth rhwng Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg a'r Tîm Cadwraeth Natur ond sydd hefyd yn cynnwys llu o sefydliadau, grwpiau ac unigolion eraill.
Mae Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol Gŵyr ynghyd â ffiniau gorllewinol dinas Abertawe yn cynnwys coetir hynafol pwysig. Ychydig iawn a wyddom am eu cyflwr iechyd a'u maint presennol, a sut maent wedi'u heffeithio gan weithgarwch dyn. Nod "Darganfod coetir hynafol Abertawe a Gŵyr" yw dysgu mwy am ein coetiroedd hynafol er mwyn helpu i wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth er mwyn cadw a gwella eu bioamrywiaeth: fel rhan o'r broses hon, bydd pobl yn gwerthfawrogi'r cyfoeth unigryw hwn yn well.
Bydd "Darganfod coetir hynafol Abertawe a Gŵyr" yn cynnwys dwy brif elfen:

- Cymharu'r mapiau degwm digidol newydd â data mapiau, awyrluniau a hen fapiau OS sydd eisoes ar gael o'r coetir hynafol – gaeaf 2013
- Cynnal arolwg ar lawr gwlad i ddilysu cyflwr iechyd a maint y coetir hynafol sydd ar gael ar hyn o bryd (cofnodi nodweddion coetir hynafol, rhywogaethau dangosol a choed hynafol – gwanwyn 2014

Bydd y prosiect hefyd yn cynnwys elfen allestyn gyda phrifysgol, ysgolion a'r cyhoedd, a bydd yn cydredeg â'r elfen wirfoddol.

| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
|---|---|---|---|
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | **Gwasanaethau darparu:** Neithdar / paill, Coed/ cnau/ ffrwythau, dŵr croyw/ awyr iach, adnoddau geneteg **Gwasanaethau rheoli:** gwella ansawdd aer, rheoli'r hinsawdd, perygl uchder llifogydd, rheoli sŵn, peillio, rheoli heintiau / plâu, puro dŵr/aer/pridd **Gwasanaethau diwylliannol:** hamdden/ gwella ymddangosiad esthetig, addysg/ hyfforddiant, iechyd / lles, perchnogaeth gymunedol **Gwasanaethau ategol:** ailgylchu maethiad/ dŵr, cynhyrchu sylfaenol, ffurfiant pridd | Abertawe | 01792 635784 jo.mullett@swansea.gov.uk |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Rhywogaethau llawn neithdar (brodorol ac anfrodorol) cynnal anifeiliaid di-asgwrn-cefn, mamaliaid, adar | | |

**Teitl y prosiect**: Dim teitl - arfaethedig

**Disgrifiad o'r prosiect:** Gweithio gydag adrannau'r Parciau i ymestyn cynllun peilot i blannu blodau gwyllt / llawn neithdar ar gylchfannau / ymylon ffyrdd.

| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
|---|---|---|---|
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | **Gwasanaethau darparu:** Neithdar / paill, dŵr croyw, awyr iach, adnoddau geneteg **Gwasanaethau rheoleiddio:** gwella ansawdd aer, rheoleiddio'r hinsawdd, perygl uchder llifogydd, rheoli sŵn, peillio, rheoli heintiau/plâu, puro dŵr/aer/pridd | Abertawe | 01792 635784 jo.mullett@swansea.gov.uk |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | **Gwasanaethau diwylliannol:** hamdden/ gwella ymddangosiad esthetig, addysg/hyfforddiant, iechyd/lles, perchnogaeth gymunedol **Gwasanaethau ategol:** ailgylchu maethiad/dŵr, cynhyrchu sylfaenol, ffurfiant pridd | | |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Rhywogaethau llawn neithdar (brodorol ac anfrodorol) cynnal anifeiliaid di-asgwrn-cefn, mamaliaid, adar | | |

| **Teitl y prosiect**: Is-grŵp Hadau Lleol | | | |
|---|---|---|---|
| **Disgrifiad o'r prosiect**: Prosiect i hyrwyddo'r defnydd o hadau brodorol gan ddefnyddio safleoedd rhoddi a derbyn yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili neu sydd yn nwylo partneriaid Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Caerffili. Bydd y prosiect arddangos yn sefydlu 3 safle rhoddi a 3 safle derbyn. Gan ddefnyddio cynaeafwr hadau, byddwn yn casglu hadau o safleoedd rhoddi dethol, cyn eu sychu a'u gwasgaru ar safleoedd derbyn gyda'r nod o ddangos sut i gynyddu ardal o laswelltir llawn rhywogaethau yn y fwrdeistref sirol gan ddefnyddio hadau brodorol. Gellir benthyca'r cynaeafwr a'r arbenigedd i eraill, a rhannu arbenigedd â phartneriaid y Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol ac awdurdodau cyfagos. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | | CGBLl Caerffili | Maggie Iles<br>ilesm@caerphilly.gov.uk<br>01495 235450 |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Adfer/creu glaswelltir llawn rhywogaethau, codi ymwybyddiaeth a chreu banc hadau o darddiad lleol. | | |

| **Teitl y prosiect:** Lles cynllunio i gyflawni amcanion Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol | | | |
|---|---|---|---|
| Disgrifiad o'r prosiect: Cais cynllunio ar gyfer Is-Orsaf Drydan 400kv yn Ystâd Ddiwydiannol Hirwaun - adfer corstir tir isel eithriadol â chofnod dyddodol (palaeo-ecolegol a phalaeo-amgylcheddol) o tua 9000 o flynyddoedd, fel lles/lliniaru cynllunio. | | | |
| | | **Ardal Cynllun Gweithredu** | **Cyswllt** |
| **Gwelliannau i wasanaethau ecosystem** | Rheoleiddio dŵr<br>Rheoli'r hinsawdd<br>Gwarchod nodwedd geomorffolegol/ ôl-rewlifol | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Richard Wistow |
| **Buddiannau bioamrywiaeth** | Adfer corstir tir isel | Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf | Richard Wistow |

Ni chawsom wybodaeth gan ambell Awdurdod Lleol arall:

Bu dipyn o newidiadau o ran staff yng nghynghorau Merthyr Tudful a Blaenau Gwent yn ddiweddar, felly mae'r swyddogion hynny'n rhy newydd i anfon sylwadau i bob pwrpas.

Castell-nedd Port Talbot - gadawodd y Swyddog Bioamrywiaeth y llynedd (contract dros dro wedi dod i ben - dim cytundeb i'w ymestyn) ac rydym newydd golli ein Cynorthwyydd Prosiect Cynefinoedd (i swyddi arall). Ar hyn o bryd, rydym wrthi'n trafod yn fewnol i ail-hysbysebu'r swydd. Os nad yw'n llwyddiannus, bydd yn golygu na allwn wneud fawr ddim gwaith prosiect na chydgysylltu'r gwaith o ddarparu'r Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

**Cam gweithredu**

Bod y Grŵp Llywio yn nodi ac yn cymeradwyo gwaith Grwpiau Swyddogion Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol.

**IE/NA**

# Diwygiadau i Restr Adran 42

**Diwygiadau i Restr Cynefinoedd a Rhywogaethau â Blaenoriaeth Cymru: adran 42 o Ddeddf Amgylchedd Naturiol a Chymunedau Gwledig (NERC) 2006**

## *Cefndir*

Mae rhestr adran 42 o gynefinoedd a rhywogaethau o'r pwys mwyaf yng Nghymru. Mae'n rhestr derfynol ac mae'n ofyniad allweddol o Ddyletswydd Bioamrywiaeth NERC. Mae'n rhestr gyfeirio allweddol ar gyfer yr holl gyrff statudol ac anstatudol sy'n ymwneud â gweithrediadau sy'n effeithio ar fioamrywiaeth yng Nghymru. Defnyddir rhestr adran 42 i lywio penderfynwyr megis cyrff cyhoeddus, gan gynnwys awdurdodau lleol a rhanbarthol, i weithredu eu dyletswydd yn unol ag adran 40 o Ddeddf NERC 2006 sy'n ymwneud â chadwraeth a bioamrywiaeth.

Nid dim ond gwarchod yr hyn sydd eisoes yn bodoli y mae'r ddyletswydd, mae'n estyn y tu hwnt i hynny ac yn cynnwys gweithredu, cefnogi a mynnu camau gweithredu a all hefyd adfer neu wella bioamrywiaeth.

Mae'r rhestr hefyd yn fodd o hwyluso penderfyniadau'r holl sefydliadau sy'n ymwneud â chadwraeth bywyd gwyllt a gwaith rheoli cefn gwlad/morol gan gynnwys sefydliadau statudol ac anstatudol, y sectorau preifat ac anllywodraethol yn ogystal â grwpiau cymunedol ac unigolion. Mae statws y rhywogaethau a'r cynefinoedd hynny ar y rhestr yn fesur allweddol o ba mor effeithiol yw polisïau ac ymatebion ymarferol i rwymedigaethau rhyngwladol, cenedlaethol a lleol i gadwraeth bioamrywiaeth a'n hymrwymiad i Gymru gynaliadwy.

Diweddarwyd y rhestr ddiwethaf ym mis Tachwedd 2011.

## *Cynigion*

Mae'r papur hwn yn egluro'r cynnig i ddiwygio'r rhestr yng nghyd-destun dwy elfen allweddol:

1. Adolygu'r adran ar gyfer planhigion fasgwlaidd – gan ddileu dwy rywogaeth nad ydynt yn bodoli neu sydd bellach wedi diflannu o Gymru (h.y. wedi diflannu o'r rhanbarth) ac ychwanegu un rhywogaeth na chafodd ei chynnwys oherwydd gwall gweinyddol.

2. Llenwi bwlch allweddol yn y rhestr o gynefinoedd â blaenoriaeth i Gymru – ychwanegu ffridd, sy'n hysbys hefyd fel coedcae neu ymylon yr ucheldir, fel cynefin o'r pwys mwyaf i gadwraeth bioamrywiaeth yng Nghymru. Mae'r ffridd yn gynefin unigryw i Gymru sydd o werth bioamrywiol uchel, sy'n ddiwylliannol werthfawr ac yn dirwedd arwyddocaol ledled ucheldiroedd Cymru.

<u>Adolygiadau i'r adran ar blanhigion fasgwlaidd</u>

Mae angen diwygio'r adran benodol hon o'r rhestr trwy ddileu dwy rywogaeth. Bydd dileu'r rhywogaethau hyn yn: sicrhau bod y rhywogaethau cywir yn cael eu cynnwys ar restr adran 42 ac yn sicrhau nad oes adnoddau'n cael eu cyfeirio'n anfwriadol ar gyfer y rhywogaethau hyn (pa mor fach bynnag neu am ba reswm bynnag) ar draul cynefinoedd a rhywogaethau eraill â blaenoriaeth:

1.1 Dileu *Juniperus communis subsp. hemisphaerica (a Juniper)* oddi ar y rhestr – ar ôl cynnal dadansoddiad genetig ar ran Cyngor Cefn Gwlad Cymru (Squirrell *et al* 2008) deallwyd nad yw'r isrywogaeth hon yn bodoli yng Nghymru. DS – ni ddylid camgymryd y rhywogaeth uchod am *Juniperus communis* gan fod hon yn bodoli ac mae'n destun camau gweithredu cadwriaethol pwysig.

1.2 Dileu *Pulicaria vulgaris* (cedowydd bach) – dim ond cofnodion hanesyddol sy'n bodoli o'r rhywogaeth hon yng Nghymru ac ystyrir ei bod bellach wedi diflannu ac yn annhebygol o ddychwelyd. Felly, argymhellir y dylid ei dileu o'r rhestr hyd oni ellir gwarantu ei bodolaeth unwaith yn rhagor.

1.3 Ychwanegu *Valerianella rimosa* (gwylaeth-yr-oen llydanffrwyth) – oherwydd gwall gweinyddol ni throsglwyddwyd y rhywogaeth hon o restr flaenorol bioamrywiaeth â blaenoriaeth Cymru (a74 o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW) 2000) i'r rhestr adran 42 gyfredol.

Llenwi bwlch allweddol yn yr adran cynefinoedd â blaenoriaeth

Ychwanegu ffridd (coedcae neu ymylon yr ucheldir) - mae ffridd yn cynnwys brithwaith o gynefinoedd anghyson ac amrywiol ar ryngwyneb 'yr ucheldir' a'r hyn a ystyrir fel arfer yn dir fferm 'iseldir' er y gall gynnwys ardaloedd ar ymyl y bryn. Mae gan y ffridd natur ddeinamig ac ar y cyfan mae iddi hen hanes o gylchoedd rheoli newidiol a bydd yn aml yn arddangos cyfnodau dilynol o gynefinoedd allweddol bywyd gwyllt. Mae'r amrywiaeth o lystyfiant, cymunedau a nodweddion strwythurol yn gwneud y cynefin hwn yn amrywiol dros ben.

Mae cyfran helaeth o adnodd cynefinoedd â blaenoriaeth Cymru a chynefinoedd Cyfarwyddeb Cynefinoedd Atodiad 1 i'w gweld yn y ffridd ond gan eu bod yn dueddol o fod yn ddarnau tir llai o faint ac o natur anghyson, maent yn anodd eu gwarchod, er enghraifft, prin iawn yw'r ffriddoedd sydd wedi cynnwys yn ein rhwydwaith o safleoedd gwarchodedig. Mae'r amrywiaeth o gymunedau llystyfiant a nodweddion strwythurol yn gynefin delfrydol i lawer o rywogaethau (gan gynnwys cyfran fawr o rywogaethau â blaenoriaeth a rhai gwarchodedig) gwblhau eu cylch bywyd. Mae'r ffridd hefyd yn gysylltiad ecolegol rhwng yr iseldir a'r ucheldir sy'n caniatáu i rywogaethau symud yn fertigol o ganlyniad i newid yn yr hinsawdd.

Mae'r ffridd yn dirwedd o bwys hanesyddol gan fod llawer gwell tystiolaeth yno o setliadau a defnydd tir cynnar nag yn yr iseldir.

Byddai llawer o fanteision allweddol o ddynodi'r ffridd fel cynefin Adran 42. Byddai'n ein galluogi gyda'n gilydd (Llywodraeth, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru , sectorau anllywodraethol ac ati) i:

- Ddatblygu a gweithredu dulliau rheoli priodol ar gyfer Glastir a chynlluniau amaeth-amgylcheddol y dyfodol
- Dod ag adnoddau ychwanegol i Gymru trwy amrywiaeth o ffynonellau ariannol (e.e. Wren, Biffa) i hyrwyddo mentrau pori. Er enghraifft, mae'r ffridd yn ddelfrydol fel tir pori ar gyfer bridiau traddodiadol a phrin, gellid defnyddio ffynonellau ariannol i hyrwyddo a marchnata cynhyrchion ar gyfer marchnadoedd arbenigol.
- Rhoi gwell ffocws ar gyfer gwaith ymchwil ac arolygu – er enghraifft, pe bai ffriddoedd yn cael eu mapio'n well byddai gwybodaeth ar gael ar gyfer adolygiad parhaus o Ardaloedd Gwarchodaeth Arbennig (SPAs)
- Hybu cyfraniad Cymru o ran bodloni dyletswyddau o dan ddeddfwriaeth Ewropeaidd. Er enghraifft, mae Erthygl 3 yn ei gwneud yn ddyletswydd ar Lywodraeth Cymru i gadw ffriddoedd gan eu bod yn cynnwys cynefinoedd

sy’n gadarnleoedd (amrywiaeth ac ardal) pwysig ar gyfer rhywogaethau o adar gwyllt.

**Pwyntiau Penderfynu**

1. Cymeradwyo’r cynnig i ddiwygio rhestr adran 42 fel yr amlinellir yn y papur uchod ac oherwydd y rhesymau a nodir yn yr atodiad atodedig.

2. Cytuno i gyflwyno’r diwygiadau gerbron y Gweinidog i’w cymeradwyo a’u gweithredu’n swyddogol.

**WBPSG18**
**PAPUR 05: ATODIAD 01**
**14eg Tachwedd 2012**

# Cynnig ar gyfer cynefin daearol newydd ar restr adran 42

## *Enwau awgrymedig: Ffridd (Ymylon yr Ucheldir, Coedcae)*

## *Disgrifiad*

Mae parth trawsnewidiol unigryw i'w weld mewn rhannau helaeth o Gymru ar lethrau is y bryniau lle mae'r rhostir yn ffinio ar ffermdir isel mwy ffrwythlon. Mae gan ymylon yr ucheldir, a elwir yn ffridd neu goedcae yn aml, gyfansoddiad cynefin unigryw gydag elfennau nodweddiadol o gynefinoedd yr ucheldir a'r iseldir. Mae dadansoddiad yn dangos mai'r ffridd yw un o'r rhannau mwyaf amrywiol a lleiaf darniog o dirwedd Cymru.

Yn y rhan fwyaf o ardaloedd, mae terfynau uchaf tir caeedig yn nodi ffin uchaf ffridd, er bod enghreifftiau o lystyfiant sy'n nodweddiadol o ffridd uwchlaw'r ffin hon. Mae'r terfyn isaf wedi'i amffinio'n glir fel arfer gan laswelltir sy'n cael ei reoli'n ddwys yn barhaus. Mewn ardaloedd â chyfran uchel o gynefin lled-naturiol yn yr iseldiroedd gall y gwahaniaeth hwn fod yn anoddach; er bod toriad yn y llechwedd yn rhannu parth y ffridd a'r iseldiroedd fel arfer.

Llystyfiant lled-naturiol a welir yn bennaf mewn ffridd. Ni fyddai unrhyw ardaloedd o laswelltir wedi'i wella neu blanhigfa gonwydd i gyd yn cael ei gynnwys yn y diffiniad o gynefin sy'n bodoli eisoes.

Y prif ddull rheoli tir yn yr ardaloedd hyn yw pori da byw dwys. Mewn rhai ffriddoedd, mae amrywiadau yn nwysedd dulliau rheoli dros amser wedi arwain at gryn gymhlethdod o ran strwythur a chyfansoddiad llystyfiant.

Dealltwriaeth eang sydd gennym o ffriddoedd ar hyn o bryd. Byddai angen gwneud rhagor o waith ymchwil ar nodweddion brithweithiau llystyfiant a'r casgliad o rywogaethau cysylltiedig i fireinio'r diffiniad. Mae'r materion yn ymwneud â diffiniad yn debyg iawn i'r rhai a gafodd eu datrys ar gyfer Brithwaith o gynefinoedd agored ar dir a oedd cynt wedi ei ddatblygu, a bydd modd dilyn yr un strwythur diffiniad a ddefnyddiwyd ar gyfer y cynefin hwnnw.

## *Nodweddion biolegol*

Mae'r llystyfiant yn cynnwys elfennau o'r ucheldiroedd a'r iseldiroedd. Mae'r manylion sy'n dilyn yn deillio o waith dosbarthu ardal 1km sgwâr ar ffriddoedd (Blackstock et al, 2010). Mae angen bwrw golwg fanylach ar y dadansoddiad hwn er mwyn darparu ffigurau cywir ar gyfansoddiad llystyfiant, ond fe'i defnyddir yma i roi rhyw syniad i ni.

Mae hanner arwynebedd tir ffriddoedd yn laswelltir lled-naturiol (glaswelltir asidig a chorsiog) a glaswelltir wedi'i wella, gyda chryn dipyn o rosydd, rhedyn a phlanhigfeydd conwydd. Mae rhedyn a rhos i'w gweld fwyaf yn y parth ffridd.

**Tabl 1.** Ardal o gynefinoedd Cam 1 mewn ffridd 1km sgwâr

| Cynefinoedd Cam 1 | % gorchudd |
|---|---|
| Coetir collddail a phrysgwydd | 2 |
| Planhigfa gonwydd | 11 |
| Glaswelltir lled-naturiol | 31 |
| Glaswelltir wedi'i wella | 19 |
| Rhedyn parhaus | 9 |
| Rhostir | 18 |
| Mignen a chors | 6 |
| Dŵr agored | 1 |
| Crynodiadau, craig, arall amrywiol | 3 |

Mae cyfran helaeth o adnoddau sawl cynefin blaenoriaeth i'w gweld ar ffriddoedd, yn enwedig ar rostir sych asidig yr iseldir, rhostir gwlyb yr iseldir, glaswelltir corsiog yr iseldir, glaswelltir asidig yr iseldir a choedydd derw'r ucheldir. Elfen gyffredin arall o gyrion yr ucheldir yw porfa mewn coetir, cynefin nad yw'n rhan o ffigurau Cam 1. Mae'r coed aeddfed (hynafol yn aml) (Good et al, 1990) a welir yn y cynefin hwn yn adnodd sy'n cael ei esgeuluso'n fawr iawn. Mae'r cynefinoedd dŵr croyw, pyllau a blaenddyfroedd, a welir ar ffriddoedd, yn debygol o fod yn bwysig oherwydd eu hansawdd uchel – gan nad ydynt wedi'u hasideiddio yn yr un modd â dŵr croyw'r ucheldir nac yn ewtroffig fel y rhan fwyaf o'r enghreifftiau ar yr iseldir.

Mae casgliadau o blanhigion yn dueddol o fod yn drawsnewidiol rhwng cymunedau'r ucheldir a'r iseldir, er bod ffriddoedd yn gadarnle pwysig i sawl rhywogaeth. Mae glaswelltir asidig sy'n cael ei bori i'r bôn yn gynefin gwych i gasgliadau o ffyngau glaswelltir ac er bod gwbodaeth o arolygon braidd yn dameidiog, mae'n ymddangos bod ffriddoedd yn cynnwys cyfran sylweddol o safleoedd glaswelltir sy'n llawn rhywogaethau ffyngau. Mae wyth o'r deg safle ffyngau glaswelltir hysbys yng Nghymru i'w cael ar ffriddoedd, ac mae llawer o safleoedd ffyngau glaswelltir Cymru yn safleoedd o bwysigrwydd rhyngwladol (Griffith et al, 2006).

Prin yw'r wybodaeth am gennau ar ffriddoedd gan nad oes gwaith arolwg penodol a systematig wedi'i gynnal erioed. Fodd bynnag, mae'n amlwg o gofnodion ad hoc bod cynefin ffriddoedd yn cynnal cryn dipyn o gennau mewn sawl rhan o Gymru, sy'n gysylltiedig yn bennaf â chynefinoedd creigiog (brigiadau, clogfeini a sgri), er bod cymunedau cennau Lobariaidd i'w gweld ar goed aeddfed gwasgaredig. Mae sawl rhywogaeth o gennau sy'n brin yn genedlaethol yn gysylltiedig â ffriddoedd o uchder isel i ganolig, fel *Halecania spodomela*, rhywogaeth sy'n weddol gyffredin ar slabiau clogfeini â golau da ar ffriddoedd ledled Cymru. Mae'r rhan fwyaf o safleoedd hysbys *Protoparmelia atriseda,* un o rywogaethau'r Llyfr Data Coch sy'n brin yn genedlaethol, ar lechweddau ffriddoedd yma yng Nghymru. Yn Sir Faesyfed, cafodd *Rhizocarpon ochrolechiae* ei ddarganfod yn ddiweddar yn Beacon Hill, ar graig frig ar ffridd - y cofnod cyntaf o'i fath Nghymru, a'r ail ym Mhrydain. Cafodd yr ail gofnod yng Nghymru o *Cladonia borealis* ei ddarganfod ar ffridd sy'n wynebu'r de yn Nyffryn Cyneiniog. Yng ngwarchodfa Gilfach ger Rhaeadr Gwy, mae ardal wych o lechwedd ffridd, brigiadau a chlogfeini ar yr Wyloer yn cynnal 40 a mwy o rywogaethau cen nodedig (sef y fflora cennau mwyaf cyfoethog a gofnodwyd ym Mhrydain). Dyma'r unig safle o'i fath yng ngwledydd Prydain i rai ohonynt, gan gynnwys *Rhizocarpon submodestum* a'r ffwng sy'n byw ar gennau, *Llimoniella fuscatae* a ddisgrifiwyd yn ddiweddar yn ogystal â mathau sy'n dal i ddisgwyl am ddisgrifiad, gan gynnwys rhywogaeth *Lecidea* newydd a rhywogaeth arall *Rhizocarpon* heb ei disgrifio eto.

Mae nodweddion planhigion uwch ar ffriddoedd yn amrywio ar hyd a lled Cymru, ac yn aml yn cynnwys rhywogaethau sydd ar drai yng nghefn gwlad yn gyffredinol. Mae tacsa nodweddiadol yn cynnwys *Trollius europaeus, Wahlenbergia hederacea, Platanthera bifolia, Vicia orobus, Gymnadenia borealis, Hammarbya paludosa, Carex dioica, Crepis paludosa, Lycopodium clavatum, Huperzia selago, Selaginella selaginoides, Viola lutea* a *Botrychium lunaria*. Mae astudiaethau amrywiol yn dangos bodolaeth mathau penodol yr ucheldir, gyda rhai ohonynt yn nodweddiadol o dirweddau ffridd (e.e. *Crataegus monogyna* â ffrwythau mawr, sydd fel pe bai wedi addasu i boblogaeth uchel o fronfraith fudol y gaeaf).

Mae'r ffriddoedd yn gartref i gymunedau amrywiol o adar sydd yn wahanol i rai'r iseldir a'r ucheldir cyfagos fel arfer (Fuller *et al* 2006; Conway *et al* 2010). Y peth pwysicaf i'r rhywogaethau hyn yn aml yw agosrwydd y cynefinoedd gwahanol sy'n ffurfio'r brithweithiau amrywiol sy'n bwysig iddynt. Mae rhedyn, yn arbennig, yn elfen bwysig i'r rhywogaethau hyn. Mae mwy o rai rhywogaethau fel corhedydd y coed, bras melyn, llinos, llinos y mynydd a chrec yr eithin, ar ffriddoedd nag unrhyw ran arall o'r dirwedd.

*<u>Enghreifftiau o sut mae rhywogaethau adar â blaenoriaeth yn defnyddio ffriddoedd</u>*

- Mwyalchen y mynydd – yn defnyddio brithwaith o rug, rhedyn a chreigiau brig/sgrïau a glaswellt ar ffriddoedd ar gyfer nythu a phorthiant
- Boda tinwyn – chwilota ar hyd ymylon rhostir am rywogaethau ysglyfaeth allweddol fel corhedydd y waun
- Bras melyn – yn defnyddio brithwaith o eithin aeddfed, prysgwydd, rhedyn a glaswellt ar ffriddoedd ar gyfer safleoedd nythu a phorthiant.
- Llinos y mynydd – yn defnyddio brithwaith o rug, rhedyn a chreigiau brig/sgrïau a glaswellt ar ffriddoedd ar gyfer nythu ac o bosibl porthiant (er mai ar lawr y dyffryn y mae'r prif gyfleoedd bwydo)
- Brân goesgoch – yn defnyddio sgrïau a glaswelltir byr mewn ffriddoedd ar gyfer porthiant.

Mae prinder gwybodaeth am anifeiliaid di-asgwrn-cefn ar ffriddoedd gan fod arolygon yn dueddol o ganolbwyntio ar naill ai'r ucheldiroedd neu'r iseldiroedd. Gloÿnnod byw yw'r rhywogaethau sydd wedi'u cofnodi orau, ac mae ffriddoedd yn gynefin pwysig i rywogaethau gloÿnnod byw sy'n dibynnu ar ganopi agored o redyn fel y fritheg berlog (*Boloria euphrosyne)*, y fritheg berlog fach (*Boloria selene*) ac yn hanesyddol, y fritheg frown (*Argynnis adippe)*. Mae rhywogaethau di-asgwrn-cefn eraill sy'n gyffredin ar ffriddoedd yn dibynnu ar redyn neu goed aeddfed hefyd.

Mewn llawer o ardaloedd, mae llygod y dŵr (*Arvicola terrestris*) wedi gorfod symud i ardaloedd uwch oherwydd incod ysglyfaethus. Mae ardaloedd lle mae dŵr yn llifo'n araf a glaswelltir corsiog ar ffriddoedd yn gynefin gwerthfawr i lygod y dŵr. Mae'r ffriddoedd yn ddolen gyswllt bwysig hefyd rhwng poblogaethau sydd wedi ffoi i'r ucheldiroedd a phoblogaethau'r iseldir. Er nad oes gwybodaeth benodol am ystlumod, mae'r talpiau helaeth o lystyfiant lled-naturiol a geir ar ffriddoedd yn debygol o fod yn ardaloedd porthiant pwysig i sawl rhywogaeth o ystlumod.

Mae ymylon yr ucheldir gyda'i frithwaith cysylltiedig o gynefinoedd sych a gwlyb ac, yr un mor bwysig, ei amrywiaeth strwythurol, yn gynefin gwerthfawr i lawer o'n ymlusgiaid ac amffibiaid brodorol. Mae madfallod cyffredin (*Zootoca vivipara)* a gwiberod (*Vipera berus)* yn ymestyn i'r ucheldiroedd ac yn gyffredin ar ffriddoedd. Mae'r ardal hon o gynefin rhyngol yn arbennig o bwysig i wiberod sydd dan fygythiad

cynyddol yn sgil darnio cynefinoedd. Mae amffibiaid, yn enwedig madfallod dŵr palfog (*Lissotriton helveticus)* a brogaod (*Rana temporaria*) yn defnyddio cynefinoedd gwlyptir ar ffriddoedd at ddibenion bridio yn ogystal â defnyddio'r cynefinoedd daearol cymysg ar gyfer porthiant.

## *Pwysigrwydd swyddogaethol*

Amrywiaeth

Yn ogystal â chyfansoddiad cynefin unigryw, mae ffriddoedd yn darparu amrywiaeth strwythurol a chyfansoddiadol unigryw nad yw i'w weld yn unman arall yn nhirwedd Cymru. Mae dadansoddiad o ddata llystyfiant 1km sgwâr yn dangos bod ffriddoedd yn dirwedd amrywiol dros ben, yn ofodol a chyfansoddiadol. Ffriddoedd sydd â'r amrywiaeth cynefinoedd cymedrig uchaf fesul 1km sgwâr o gymharu a thirweddau arfordir, iseldir ac ucheldir (Blackstock *et al*, 2010).

Tabl 2. Mynegai amrywiaeth Shannon ar gyfer cynefinoedd Cam 1 o fewn 1km sgwâr

| **Math o dirwedd** | **Mynegai amrywiaeth** |
|---|---|
| Arfordir | 1.04 |
| Iseldir | 0.98 |
| Ffridd | 1.35 |
| Ucheldir | 1.07 |

Mae dadansoddiadau gofodol eraill o lystyfiant ffriddoedd yn cadarnhau ei fod yn dirwedd hynod heterogenaidd sy'n aml yn cynnwys brithwaith cymhleth o gynefinoedd. Mae'r brithweithiau llystyfiant yn amrywiol yn strwythurol a gofodol, gan ddarparu cynefinoedd delfrydol i sawl rhywogaeth sy'n dibynnu ar amrywiaeth eang o lystyfiant i gwblhau eu cylch bywyd.

Darniad isel, cysylltedd uchel

Mae ffriddoedd yn hafan i lawer o rywogaethau'r iseldir, fel y bras melyn. Mae cynefinoedd sy'n fwyfwy prin a darniog yn yr iseldir yn parhau mewn blociau mwy gyda thyfiant uwch ar ffriddoedd (Blackstock et al, 2010). Mae rhywogaethau sy'n dibynnu ar ardaloedd mwy o gynefinoedd lled-naturiol neu gyfuniadau penodol yn gweld bod ffriddoedd yn hafan o'r cynefinoedd sydd wedi'u darnio yn yr iseldir.

Mae ardaloedd cyfagos mawr o lystyfiant lled-naturiol yn brin ar iseldiroedd Cymru. Mae 95% o'r blociau llystyfiant lled-naturiol y tu allan i'r ucheldiroedd yn cwmpasu llai na 10 hectar, a dim ond 12 bloc sy'n cwmpasu dros 500 hectar. O'r rhain, mae 10 o'r 12 ar ymylon yr ucheldir (Blackstock *et al*, 2010). Mae'r ardaloedd eang hyn sy'n cynnal llystyfiant lled-naturiol yn debygol o fod yn bwysig i warchod bioamrywiaeth.


Mae rhwydweithiau a ffurfiwyd i archwilio cysylltedd ecolegol y dirwedd (Watt et al 2005, Latham et al, 2008) yn dangos bod cydberthynas rhwng cysylltedd uchel a sgwariau 1km o ffridd. Mae hyn yn dangos bod ffriddoedd yn elfen bwysig o rwydweithiau cynefinoedd. Mae'n ymddangos bod ffriddoedd nid yn unig yn ddolen gyswllt rhwng clytiau o gynefinoedd yr iseldir a'r ucheldir, ond hefyd yn fand parhaus islaw'r ucheldiroedd. Bydd y cysylltedd hwn galluogi rhywogaethau i wasgaru ac addasu i newid yn yr hinsawdd ac ni ddylid methu ei werthfawrogi. Gall addasu i newid yn yr hinsawdd fod yn arbennig o berthnasol i ffriddoedd gan ei fod yn cynnwys amrywiadau uchderol, agweddau gwahanol a strwythurau amrywiol, gan ddarparu'r gallu i rywogaethau addasu i amodau sy'n newid a gwneud symudiadau i

fyny ac ar draws wrth iddynt chwilio am gynefinoedd addas i fodloni eu cylchoedd bywyd amrywiol.

Mae gwaith ymchwil diweddar (Manning et al. 2009, Fischer et al. 2006) yn pwysleisio gwerth ecolegol elfennau o'r dirwedd sy'n darparu parhad o ran adnoddau i fioamrywiaeth. Yn wyneb newidiadau i ddulliau rheoli tir yn sgil pwysau allanol fel yr hinsawdd a gofynion economaidd, mae ffriddoedd yn cyd-fynd â chynefinoedd deinamig tebyg sydd o bwysigrwydd byd-eang er gwarchod bioamrywiaeth.

## *Dosbarthiad a hyd a lled daearyddol*

Ceir ffriddoedd ar uchder o rhwng 100m a 450m ledled Cymru. Fel arfer, mae'n gysylltiedig ag ymylon yr ucheldir, ond  ceir ardaloedd ar wahân o ffriddoedd hefyd lle nad yw topograffi'r tir yn cyrraedd yr uchder angenrheidiol i gael ei ystyried yn ucheldir o'r iawn ryw.



**Ffigur 1.** Map dosbarthiad yn dangos sgwariau 1km sy'n cynnwys ffridd.

Mae Ffigur 1 yn dangos dosbarthiad ardaloedd 1km sgwâr sy'n cynnwys rhywfaint o ffridd yn seiliedig ar ddadansoddiad blaenorol (Blackstock *et al*, 2010).

Nid oes unrhyw amcangyfrif o arwynebedd ffriddoedd yng Nghymru ar hyn o bryd. Yn ôl y dadansoddiad hwn, mae 13% o'r ardaloedd 1km sgwâr yng Nghymru yn cynnwys rhywfaint o ffridd.

## *Rhesymau dros argymhellion*

<u>Cynefinoedd yn y DU â rhwymedigaethau rhyngwladol</u>

Mae'r cynefinoedd Atodiad 1 canlynol i'w gweld ar dirwedd ffridd (mae cynefinoedd â nodweddion blaenoriaeth yr UE wedi'u nodi mewn print trwm):

- Cyrsiau dŵr ar lefelau gwastadedd i fynyddig sy'n cynnwys llystyfiant *Ranunculion fluitantis* a *Callitricho-Batrachion*.

- Rhostiroedd gwlyb Gogledd yr Iwerydd gyda *Erica tetralix*
- Rhostiroedd sych Ewropeaidd
- Ffurfiannau *Juniperus communis* ar rostiroedd ac  is-haenau calchaidd
- Glawelltir Calaminaraidd *Violetea calaminariae*
- **Glaswelltir sych lled-naturiol ac ansawdd tir prysgwydd ar is-haenau calchaidd (*Festuco-Brometalia*)**
- Dolydd *Molinia* ar briddoedd calchaidd, mawnog neu gleiog llawn silt (*Molinion caeruleae*)
- Cymunedau llystyfiant tal hydroffilaidd ac ati.
- Mignenni trawsnewidiol a chorsydd arwyneb.
- Pantiau ar is-haenau mawnog y *Rhynchsporion*.
- Ffeniau alcalïaidd.
- **Glaswellir *Nardus* llawn rhywogaethau**
- Sgri siliceaidd ar lefelau mynyddig i eira (*Androsacetalia alpinae* a *Galeopietalia ladani*)
- Sgrïau calchaidd a chalchit ar lefelau mynyddig i alpaidd
- Llethrau creigiog calchaidd gyda llystyfiant casomffytaidd
- Llethrau creigiau siliceaidd gyda llystyfiant casomffytaidd
- **Calchbalmentydd**
- Ogofâu nad ydynt ar agor i'r cyhoedd
- Fforestydd ffawydd asidoffilaidd gydag *Ilex* ac ati,
- **Fforestydd *Tilio-Acerion* ar lethrau, sgrïau a dyfnentydd**
- Hen goed derw mes di-goes gydag *Ilex* a *Blechnum*

<u>Cynefinoedd sy'n bwysig i rywogaethau allweddol gan gynnwys rhywogaethau y mae gan y DU rwymedigaethau rhyngwladol iddynt</u>

Mae'r rhywogaethau â rhwymedigaethau rhyngwladol wedi'u nodi mewn print trwm.

<u>Mamaliaid</u>

Cynefin porthiant ar gyfer **rhywogaethau ystlumod** a chynefin i lygod y dŵr (*Arvicola terrestris*).

<u>Adar</u>

Glaswellt yn bennaf – ehedydd, tinwen y garn, brân goesgoch

Cymysgedd o redyn a glaswellt yn bennaf – ji-binc, corhedydd y coed, telor yr helyg, clochdar y cerrig, tinwen y garn a'r frân goesgoch

Rhedyn yn bennaf - tingoch, robin goch, corhedydd y coed, dryw a thelor yr helyg

Cymysgedd o redyn a grug yn bennaf – crec yr eithin a chlochdar y cerrig

Cymysgedd o laswellt, grug a *vaccinium* yn bennaf – corhedydd y waun, mwyalchen y mynydd, **boda tinwyn** a'r **cudyll bach**

Grug yn bennaf – corhedydd y waun a mwyalchen y mynydd

Cymysgedd o eithin - dryw, clochdar y cerrig, llinos, llwyd y gwrych, bras melyn a llwydfron

Coetir – aderyn du, titw tomos las, ji-binc, telor yr ardd, telor penddu, titw mawr, gwybedog brith, tingoch, bronfraith, robin goch, telor yr helyg, dryw a siff-siaff (mwyalchen y mynydd mewn coed llydanddail gwasgarog)

Sgri a glaswelltir asid yn bennaf – brân goesgoch.

Planhigion anfasgwlaidd

Mae ffriddoedd yn gadarnle i gasgliadau o ffyngau glaswelltir gan gynnwys rhywogaethau adran 42: *Clavaria zollingeri, Hygrocybe spadicea, Microglossum olivaceum* a *Geoglossum atropurpureum.*

Mae fflora cennau tirweddau ffridd yn gyfoethog ac amrywiol iawn, ac yn cynnwys sawl rhywogaeth sy'n brin yn genedlaethol gan gynnwys *Halecania spodomela, Protoparmelia atriseda, Rhizocarpon ochrolechiae, Cladonia borealis, Rhizocarpon submodestum* a *Llimoniella fuscatae.*

Anifeiliaid di-asgwrn-cefn

Mae rhywogaethau di-asgwrn-cefn allweddol yn cynnwys y fritheg frown (*Argynnis adippe)*, y fritheg berlog *(Boloria euphrosyne)*, y fritheg berlog fach (*Boloria selene)* gloÿnnod byw, cliradain Gymreig *(Synanthedon scoliaeformis)*, gwyfyn sabl â smotiau gwyn Pyralidiau *(Anania funebris)* a *Procas granulicollis* (gwiddon BAP)

Planhigion fasgwlaidd

Mae'r rhywogaethau planhigion ffridd uwch sydd dan fygythiad yn cynnwys rhywogaethau â blaenoriaeth Adran 42 *Gymnadenia borealis, Hammarbya paludosa Lycopodium clavatum, Lycopodiella inundata*, *Trollius europaeus, Platanthera bifolia, Pseudorchis albida* a *Vicia orobus*. Gwelir *Juniperus communis* ar ffriddoedd mewn sawl ardal, yn enwedig o amgylch Nantmor lle mae'r isrywogaeth *communis* a *nana* yn tyfu gyda'i gilydd. Mae rhywogaethau prin eraill yn cynnwys *Antennaria dioica* (a oedd i'w gweld yn helaeth ar ymylon yr ucheldir ond sy'n hynod o brin bellach), *Gnaphalium sylvaticum* (wedi diflannu o Gymru bellach o bosibl) a *Meum athamanticum.* Mae'r effros (*Euphrasia confusa, E. scottica, E. micrantha, E. nemorosa, E. anglica* ac yn enwedig *E. rostkoviana*) hefyd yn blanhigion ymylon yr ucheldir. Dim ond mewn ychydig o gynefinoedd ffridd ym Mhrydain y ceir yr hesgen groesryw brin, *Carex x deserta*. Mae sawl rhywogaeth brin o *Sorbus* wedi'u cyfyngu'n ddieithriad bron i ffriddoedd, ac efallai fod y rhywogaeth *Betula celtiberica* sydd newydd ei darganfod yn blanhigyn sy'n perthyn i'r dirwedd hon yn arbennig.

**Cynefinoedd mewn perygl**

Er bod gwybodaeth hanesyddol gywir am ffriddoedd yn brin, mae dadansoddiad o'r data sydd ar gael (Milsom *et al*, 2003) yn dangos yn glir bod cryn dipyn o lystyfiant lled-naturiol wedi'i golli a'i ddisodli gan laswelltir wedi'i wella a phlanhigfeydd conwydd mewn ardaloedd gwledig a gwaith datblygu mewn ardaloedd mwy trefol. Mewn ardaloedd gwledig, mae peiriannau modern sy'n gallu gweithio ar lethrau fwyfwy serth o gymharu â'r gorffennol yn arwain at ffermio dwys ar dir â reolwyd yn llai dwys cyn hynny. Mewn ardaloedd mwy trefol mae datblygiadau, megis tai, yn arwain at golli cynefinoedd. Mae datblygiadau eraill ar raddfa fach, neu anaml, fel tyrbinau gwynt a chynigion i ehangu neu greu cronfeydd dŵr newydd yn arwain at golli cynefinoedd.

Bygythiad arall, mae'n debyg, yw llai o reolaeth a gadael i dir fynd yn segur. Er enghraifft, roedd astudiaeth ddiweddar yn y Gogledd (Gritton, 2012) yn edrych ar gyflwr rhostir ar ffriddoedd yn dangos bod cyflwr rhostir sych, yn enwedig, i'w weld yn dirywio gyda cholli grug a lledaeniad eithin mân. Mae'n debyg mai llai o reolaeth sy'n gyfrifol am hyn. Mae tir wedi'i adael yn segur yng nghymoedd y De wedi arwain at ordyfiant/llystyfiant wedi'i esgeuluso, ac yn caniatáu achosion rheolaidd o danau heb eu rheoli.

Mae coetiroedd ar raddfa fach wedi'u creu ar ffriddoedd ers degawdau lawer. Does dim dwywaith bod y blociau bach o goetiroedd yn ychwanegu at yr amrywiaeth a'r rhywogaethau ar ymylon yr ucheldir. Er hynny, mae llawer o'r rhywogaethau sy'n dibynnu ar ffriddoedd yn rhywogaethau cynefinoedd agored. Gall plannu coed ar raddfa fawr arwain at golli brithweithiau, a all fod yn niweidiol os ydynt mewn ardaloedd sensitif.

Mae ardaloedd o goed a phorfeydd coediog gwasgaredig yn nodweddiadol o rai mathau o ffriddoedd. Mae llawer o'r coed hyn, er yn aml yn fach a chorachaidd, yn hynafol ac yn cynnal cymunedau o gennau ac anifeiliaid di-asgwrn cefn. Fodd bynnag, maent mewn perygl o gael eu clirio gan nad ydym yn cydnabod eu hoed a'u pwysigrwydd yn aml iawn.

Mae rhywogaethau goresgynnol yn gryn fygythiad i rai ardaloedd o ymylon yr ucheldir. Mae goresgyniad *Rhododendron ponticum* yn broblem arbennig yn Eryri ac mae Jac y Neidiwr (*Impatiens glandulifera)* yn lledaenu'n hawdd ar ardaloedd wedi'u gadael yn segur mewn rhai rhannau o'r De. Mae poblogaeth sylweddol o eifr gwyllt yn ardaloedd y Gogledd yn difrodi coed sydd yno'n barod, ac yn rhwystro coed newydd rhag ymsefydlu.

Fel bron pob cynefin, mae newid yn yr hinsawdd a dyddodiadau nitrogen yn fygythiad hirdymor i dirwedd ffriddoedd.

Ychydig iawn o ffriddoedd sydd wedi cael gwarchodaeth statudol fel Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Mae terfynau uchaf lle caeedig yn aml yn amffinio safleoedd yr ucheldir, ac mae safleoedd yr iseldir wedi'u dethol gan amlaf o arolygon cynefinoedd neu rywogaethau nad ydynt yn cynnwys ardal o ffridd. Mae hyn wedi arwain at sefyllfa lle nad yw cyfran sylweddol o adnoddau cynefinoedd â blaenoriaeth ac ardaloedd sy'n bwysig i adar ysglyfaethus sy'n chwilota am fwyd wedi'u hystyried o safbwynt hysbysu. Mewn gwirionedd, mae'r diffyg cydnabyddiaeth ac ymwybyddiaeth o bwysigrwydd ffriddoedd oherwydd gwybodaeth annigonol yn fygythiad ynddo'i hun. Mae llawer o'r rhywogaethau sy'n bresennol ar ffriddoedd eisoes wedi'u cynrychioli ar restr Adran 42. Fodd bynnag, nid yw brithweithiau o ardaloedd bach o'r cynefinoedd hyn sy'n frith o rywogaethau heb eu gwarchod megis rhedyn yn derbyn y gydnabyddiaeth na'r warchodaeth a fyddai gan ardaloedd mwy o'r cynefinoedd hyn. Ac eto, mae'r brithweithiau amrywiol hyn yn hynod o werthfawr o safbwynt bioamrywiaeth.

*Enwau'r sefydliadau*

Cyngor Cefn Gwlad Cymru, RSPB Cymru, Gwarchod Gloÿnnod Byw Cymru, Plantlife Cymru

## *Cyfeiriadau*


Blackstock, T.H., Howe, E.A., Stevens, J.P., Burrows, C.R. a Jones, P.S. 2010. Habitats of Wales. A Comprehensive Field Survey. Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd.

Conway, G.J., Fuller, R.J. 2010. Multi-scale Relationships between Vegetation Pattern and Breeding Birds in the Upland Margins (ffridd) of North Wales. Adroddiad ymchwil rhif 566 BTO.

Fischer, J. Lindenmayer, D. 2006. Beyond fragmentation: the continuum model for fauna research and conservation in human-modified landscapes. Oikos112, 473-480.

Fuller, R.J., Atkinson, P.W., Garnett, M.C., Conway, G.J., Bibby, C.J. a Johnstone, I.G. 2006. Breeding bird communities in the upland margins (ffridd) of Wales in the mid-1980s. Bird Study, 53, 177–186.

Good, J., Bryant, R. a Carill, P. 1990. Distribution, longevity and survival of upland hawthorn (Crataegus monogyna) scrub in north Wales in relation to sheep grazing. J. of Applied Ecology 27: 272-283

Gritten, R. 2012. Conservation assessment of lowland heathland in the upland fringes (ffridd zone) of the Snowdonia National Park. Adroddiad gwyddonol rhif 992 Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Griffith, G.W., Holden, L., Mitchel, D., Evans, D.E., Aron, C., Evans, S. and Graham, A. 2006. Mycological survey of selected semi-natural grasslands in Wales. Adroddiad gwyddonol rhif 743 Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Latham, J., Blackstock, T.H. a Howe, E.A. 2008. Ecological connectivity in Wales: planning action to help terrestrial biodiversity respond to habitat fragmentation and climate change. Adroddiad gwyddonol rhif 08/7/1 staff Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Manning, A.D., Fischer, J., Felton, A., Newell, B., Steffen, W. a Lindenmayer, D.B. (2009) Landscape fluidity – a unifying perspective for understanding and adapting to global change. Journal of Biogeography, 36, 193-199.

Milsom, T.P., Aegerter, J., Bishop, J.D., Allcock, J.A; Barker, D., Boatman, N.D., Hill, V., Jones, N., Marshall, J., McKay, H.V., Moore, N.P., a Robertson, P.A. 2003. Review of hill-edge habitats in the uplands of England and Wales. Adroddiad rhif BD1235 Defra.

Squirrell, J. Hollingsworth, P.2008. An assessment of *Juniperous communis* ssp. *hemisphaerica* in Britain using molecular markers. Adroddiad gwyddonol rhif 848 Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

Watts, K., Griffiths, M., Quine, C., Ray, D. a Humphrey, J.W. 2005. Towards a Woodland Habitat Network for Wales. Adroddiad gwyddonol rhif 686 Cyngor Cefn Gwlad Cymru.

**Grŵp Llywio 18 PBC**
**PAPUR I'W NODI A**
**14eg Tachwedd 2012**

**Teitl: Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt – y diweddaraf**

**Cynhyrchwyd gan: Y Rhingyll Matthew Howells, Heddlu Dyfed-Powys / Cyngor Cefn Gwlad Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Cyfarfu Grŵp Gorfodi Troseddau Bywyd Gwyllt Cymru yn swyddfeydd y Cyngor Cefn Gwlad yn Llandarcy ddydd Mercher 11 Gorffennaf 2012. Amgaeir y camau gweithredu o'r cyfarfod hwnnw (Atodiad 1). Hwn oedd cyfarfod olaf y Prif Arolygydd Gwyn Thomas o Heddlu Dyfed-Powys fel cadeirydd gan iddo ymddeol ddiwedd mis Gorffennaf. Y Prif Arolygydd Mark Bleasdale, hefyd o Heddlu Dyfed-Powys Police fydd yn ei olynu mae'n debyg, a bydd yn cadeirio ei gyfarfod cyntaf ym mis Tachwedd.
Ymddeolodd Ian Arundale (Cymdeithas Prif Swyddogion Heddlu Cymru (WACPO) ym mis Mehefin hefyd ac mae Prif Gwnstabl dros dro Heddlu-Dyfed Powys, Jackie Roberts, wedi ymgymryd â'r Portffolio Troseddau Bywyd Gwyllt am y tro nes etholiadau Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu ym mis Tachwedd. Yna, bydd y Comisiynwyr newydd yn penodi Grwpiau o Brif Swyddogion felly mae'n bosibl y bydd sawl sy'n gyfrifol am Fywyd Gwyllt yn WACPO yn newid.

Nid oes unrhyw un wedi'i benodi yn lle Ian Guilford eto. Cynhelir cyfweliadau ar 12 a 13 Tachwedd. Mae pum swyddog o Heddlu De Cymru ar y rhestr fer. Gobeithio y bydd swyddog yn dechrau ar ei waith erbyn diwedd y flwyddyn. Yn y cyfamser, mae'r Rhingyll Andy Scourfield yn parhau i gydgysylltu achosion o droseddau bywyd gwyllt ar gyfer ardal Heddlu De Cymru.

Yn ddiweddar, daeth y Rhingyll Rob Taylor, sydd ar secondiad gyda'r Cyngor Cefn Gwlad o Heddlu Gogledd Cymru, yn ail yng nghystadleuaeth Swyddog Troseddau Bywyd Gwyllt y DU yn y Gynhadledd Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol. Dyma'r trydydd tro iddo gael y wobr hon. Mae ei gasgliad o deganau Panda yn tyfu mor gyflym tra phosib y bydd yn agor sw cyn bo hir!

Gofynnwyd i Raglen Gyswllt Ysgolion yr Heddlu greu gwers ar fywyd gwyllt i ysgolion. Mae Linda Roberts yn gwneud gwaith da gyda hyn ac mae cynllun y wers gyda'r cyfieithwyr ar hyn o bryd.

Mae Cynhadledd Troseddau yn erbyn Bywyd Gwyllt Cymru wedi'i gohirio eleni. Yn hytrach, bydd sefydlu'r Un Corff Amgylcheddol newydd yng Nghymru yn darparu'r ffocws ar gyfer y gynhadledd y flwyddyn nesaf.

**Achosion**

Y diweddaraf am SODdGA Llwyn, Llanrhaeadr - Mae'r ddau ddyn o'r gogledd a blediodd yn euog i drosedd difrod trydydd parti i'r SODdGA wedi cael gorchymyn llys i adfer y coetir. Bydd hyn yn costio rhai miloedd o bunnau iddyn nhw. Mae'r achos hwn yn eithaf arwyddocaol gan mai dyma'r achos SODdGA cyntaf i gael ei erlyn gan Wasanaeth Erlyn y Goron.

Bydd yr achos yn erbyn gŵr o Gasnewydd a wnaeth waith heb ganiatâd ar Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig Caeau Blaen-yr-Orfa yn cael ei glywed yn y llys ar 12 a 13 Tachwedd. Rwy'n gobeithio gallu rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am y dyfarniad yn y cyfarfod ar 14 Tachwedd. Mae'r achos hwn o ddiddordeb i bartneriaid ac wedi codi rhai materion diddorol o ran deunydd trydydd parti sy'n cael ei greu mewn ymchwiliad o'r fath. Gellir egluro hyn yn fanylach ar ôl yr achos.

Mae'r achos yn erbyn gŵr o Gaerdydd a wnaeth gais ffug i allforio corn rhinoseros, a brynwyd am £43,384 (yn cynnwys taliadau) wedi arwain at fforffedu'r eitem. Mae colli'r corn wedi cael mwy o effaith arno na'r ddirwy.

***Camau Gweithredu gofynnol***

- Ein cymeradwyo i barhau fel yr awgrymir uchod IE/NA

**Grŵp Llywio 18 PBC**
**PAPUR I'W NODI A: ATODIAD 01**
**14eg Tachwedd 2012**

# Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru – gweithgor atal troseddau yn erbyn bywyd gwyllt a gorfodi.

Cyfarfod a gynhaliwyd yn swyddfa Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Llandarcy.
10.30am Dydd Mercher 11 Gorffennaf 2012

Presennol
Gwyn Thomas – Heddlu Dyfed-Powys (Cadeirydd)

| | |
|---|---|
| Cyngor Cefn Gwlad Cymru | Iwan Hughes (Ffôn) |
| Heddlu Dyfed-Powys | Pete Charleston |
| Heddlu Gwent | Colin Thomas |
| Heddlu Gwent | Rob Maddocks |
| Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru (MWWFRS) | Richie Hammond |
| Yr Uned Troseddau Bywyd Gwyllt Genedlaethol | Andy McWilliam |
| R.S.P.B. | Pat Lindley (Ffôn) |
| Heddlu De Cymru | Mark Goulding |
| Llywodraeth Cymru | Kathleen Carroll |
| Sylwedydd | Ian Guildford |

Ymddiheuriadau.
Peter Jones, Gwasanaeth Erlyn y Goron
Eryl Lloyd
Rob Taylor
Matt Howells
Andy Scourfield
Jo Jones
Rhys Hughes
Keith Hogben

Dymuna'r grŵp ddiolch i Gyngor Cefn Gwlad Cymru am gael defnyddio'r ystafell gyfarfod a'r cyfleusterau ffôn/fideo-gynadledda.

Camau Gweithredu

| | Gweithredu | Erbyn | Gan bwy | Canlyniad |
|---|---|---|---|---|
| 4j | Gweithio gyda lluoedd eraill i ddefnyddio cytundebau rhannu gwybodaeth a rhannu data Heddlu Gogledd Cymru/Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru ledled Cymru. Trafodaethau ar y gweill eisoes gyda Heddlu De Cymru ac Asiantaeth yr Amgylchedd | Gorffennaf 2012 | Eryl Lloyd | Eryl yn absennol, darparu diweddariad ym mis Hydref 2012 |
| 4k | Heddlu Gwent i ddarparu pwynt cyswllt i Eryl | Mai 2012 | Rob Maddocks | Cwblhawyd. |
| 4l | Dosbarthu'r papur gazetteer a | Ebrill 2012 | Pete Charleston | Cwblhawyd. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ddarparwyd gan Rachael i'r holl aelodau ei nodi. | | | |
| | Anfon y papur i Eryl er gwybodaeth ac ar gyfer gweithredu. | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| 34c | Ystyried llunio gweithdrefnau gweithredu safonol ar gyfer troseddau sy'n ymwneud â photsian am geirw | Gorffennaf 2012 | Andy Scourfield | Darparwyd diweddariad ysgrifenedig. Angen diweddariad pellach ar gyfer Hydref 2012 |
| 34d | Gweld a yw systemau gorchymyn a rheoli'r lluoedd yn creu cysylltiadau awtomatig o eiriau allweddol i ddogfennau canllaw | Mai 2012 | Rob Taylor<br><br>Colin Thomas<br><br>Matthew Howells | Derbyniwyd diweddariad gan Heddlu Gwent. Eraill i adrodd yn Hydref 2012 |
| 34e | Darparu brîff ysgrifenedig i swyddogion troseddau bywyd gwyllt arweiniol Cymru | Mai 2012 | Andy Scourfield | |
| 37 | Llunio adroddiad ar droseddau bywyd gwyllt Cymru gyfan ar gyfer 2011 | Diwedd Gorffennaf 2012 | Iwan Hughes/Rob Taylor | Derbyniwyd fersiwn drafft. Gofyn i Rob ystyried materion pellach.<br><br>Rob Taylor/Iwan Hughes i ddarparu diweddariad erbyn diwedd Gorffennaf 2012 |
| 40 | Y Grŵp i ystyried llunio cyfres o nodiadau cyfarwyddyd i swyddogion sy'n ymchwilio i droseddau bywyd gwyllt yn dibynnu ar ganlyniad camau gweithredu 34c a 34d | Gorffennaf 2012 | Y Cadeirydd | Ystyried ymhellach ar ôl cwblhau cam gweithredu 34c. |
| 41 | Y Grŵp i dderbyn cynnig Cyngor Cefn Gwlad Cymru i arddangos gwaith y grŵp ar eu stondin un prynhawn yn ystod y Sioe Fawr (23-27 Gorffennaf) | Gorffennaf 2012 | Richie Hammond | I'w gyflawni yn y Sioe Fawr ddydd Mercher 25 Gorffennaf 2012 |
| 42 | Datblygu cyflwyniad byr 10 munud ar Droseddau yn erbyn y Dirwedd (DVD a Powerpoint) y gall arweinwyr ei gyflwyno mewn gwahanol Ysgolion Coedwig lleol yn ardal Torfaen ac yna ei gyflwyno yng Ngwent. (Ddim i'w gymysgu â'r gwaith parhaus gyda Llywodraeth Cymru a'r Cwricwlwm Cenedlaethol mewn ysgolion). | Gorffennaf 2012 | Rob Maddocks | Prosiect parhaus yn cael ei gynnal ar y cyd ag ysgolion Torfaen. Darparu diweddariad yn Hydref 2012 |
| 42a | Heddlu Gwent yn ystyried cynhyrchu DVD ar droseddau yn erbyn bywyd gwyllt | Hydref 2012 | Colin Thomas | |
| 43 | Ystyried y cynllun cyflenwi ar gyfer 2013 | Gorffennaf 2012 | Pawb | Pawb i ystyried ymhellach erbyn y cyfarfod nesaf yn Hydref 2012.<br><br>Mae'r awgrymiadau a dderbyniwyd hyd yn hyn yn cynnwys cysylltu'r cynllun |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | | | | cyflenwi i:<br><br>Argymhellion ymchwiliad y Pwyllgor Archwilio Amgylcheddol i droseddau yn erbyn bywyd gwyllt<br><br>Ystyried y gwaith sy'n cael ei wneud gan adolygiad comisiwn y gyfraith o droseddau yn erbyn bywyd gwyllt<br><br>Didoli tasgau a chydgysylltu |
| 44 | Cynhyrchu calendr o ddigwyddiadau allweddol. | Gorffennaf 2012 | Pawb i e-bostio Pete Charleston gyda manylion digwyddiadau sy'n allweddol i waith y grŵp hwn | Derbyniwyd gwybodaeth gan Heddlu Gwent, eraill i wneud hynny hefyd os gwelwch chi'n dda. |
| 45 | Ystyried cynhyrchu bwletinau gwybodaeth llai annymunol | Hydref 2012 | Andy McWilliam | |
| 46 | Nodi dyddiadau ar gyfer cyfarfod yn ystod y 12-18 mis nesaf. | | | Cytuno y bydd cyfarfodydd yn cael eu cynnal ar y 3ydd dydd Mawrth yn Hydref, Ionawr, Ebrill a Gorffennaf |

Y Cyfarfod Nesaf
Cynhelir y cyfarfod nesaf am 10.30am ddydd Mawrth 16 Hydref 2012 yn Swyddfa'r Comisiwn Coedwigaeth, Resolfen, Castell-nedd.

Heddlu Gwent fydd yn cynnal y cyfarfod ddydd Mawrth 15 Ionawr 2013.

**GRŴP LLYWIO 18 PBC**
**PAPUR I'W NODI B**
**14[eg] Tachwedd 2012**

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**GWEITHDY ACADEMAIDD PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU 2012, Amgueddfa Cymru, Caerdydd, 11 Medi 2012**

**Cynhyrchwyd gan: Tracey Lovering, Cynghorydd Ecosystemau PBC**

## *Cefndir*

Roedd 2 brif nod i'r Gweithdy Academyddion[1];

1. Cael cynrychiolwyr academaidd PBC i ddeall sut y gallant gyfrannu at ein gwaith drwy alluogi cysylltiadau ymchwil gyda sefydliadau yng Nghymru, y DU a ledled y byd; ac yn benodol, cytuno i arwain ar waith blaenoriaeth sy'n ymwneud â diwallu anghenion ymchwil/llenwi bylchau tystiolaeth a nodwyd gan grwpiau cynghori PBC.

2. Rhoi dealltwriaeth i PBC o'r ffordd y gall ein gwaith tystiolaeth gyfrannu at ddatblygiadau ymchwil ehangach yng Nghymru, y DU a thramor; i atgyfnerthu a meithrin cysylltiadau gan sicrhau bod ymchwil Cymru ar fioamrywiaeth ac ecosystemau'n ychwanegu gwerth i'r gronfa o dystiolaeth sy'n llywio datblygiad polisi.

Gwahoddwyd sefydliadau academaidd o bob cwr o Gymru i anfon cynrychiolwyr i'r gweithdy a chafwyd cynrychiolaeth o Brifysgolion Caerdydd, Abertawe, Aberystwyth, Bangor a Morgannwg, Canolfan Ecoleg a Hydroleg Bangor, Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru (WERH), Amgueddfa Cymru a'r Ardd Fotaneg Genedlaethol. Roedd yr holl gynrychiolwyr yn dod o gronfa o academyddion a gefnogodd PBC yn ddiweddar trwy aelodaeth o Grwpiau Arbenigol Ecosystemau a Rhywogaethau PBC[2]. Roedd Cadeiryddion Grwpiau Ecosystemau PBC, Swyddogion Llywodraeth Cymru, Arbenigwyr Cynefinoedd a Newid yn yr Hinsawdd Cyngor Cefn Gwlad Cymru, a chynrychiolwyr o Asiantaeth yr Amgylchedd a GIS Consultancy yn bresennol yn y gweithdy hefyd.

Shaun Russell (WERH) oedd cadeirydd y gweithdy, a chafwyd cyflwyniadau gan Steve Spode (Llywodraeth Cymru), Tracey Lovering (PBC) a Dr Geoff Proffitt (Prifysgol Abertawe). Rhannwyd y cynrychiolwyr i dri gweithdy thematig i ystyried sut y gall PBC a Llywodraeth Cymru lenwi bylchau mewn tystiolaeth[3], trwy weithio'n agos â sefydliadau academaidd a sicrhau cysylltiadau priodol. Cytunodd pob grŵp ar Gamau Gweithredu Penodol[4].

### Grwpiau Thematig y Gweithdy[5]

---

[1] Gweithdy Academyddion PBC 2012 wedi'i ddarparu fel Papur i'w Nodi D (tudalennau 48-49) a Rhaglen y Gweithdy yn Atodiad 01 (tudalennau 50-51) ar gyfer Grŵp Llywio 17 PBC 10 Gorffennaf 2012.
[2] Mae rhestr y mynychwyr yn rhoi rhagor o wybodaeth (Atodiad 01).
[3] Mae rhestr lawn o fylchau mewn tystiolaeth a ddarparwyd gan Grwpiau Arbenigol Ecosystemau a Rhywogaethau a Grŵp Rhywogaethau Ymledol Estron PBC ar gael ar gais.
[4] Mae camau gweithredu penodol ar gael ar gais.
[5] Mae canlyniadau'r Grwpiau Thematig ar gael ar gais.

1. Penodol i fioamrywiaeth: dirywiad rhywogaethau a chynefinoedd; gwasgariad rhywogaethau; geneteg; darnio; gwyddoniaeth ar raddfa tirwedd; athreiddedd; rheoli cynefinoedd
2. Iechyd ecosystemau a bioamrywiaeth, a gwasanaethau ecosystem
3. Newid, addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd / llygredd; ewtroffigedd, nitrogen atmosfferig ac ati

**Canlyniadau'r Gweithdy:**

1. Bydd cynrychiolwyr academaidd PBC yn deall yn well sut y gallant gyfrannu at waith bioamrywiaeth PBC, a sut gall y gwaith hwn lywio Rhaglen Cymru Fyw Llywodraeth Cymru a'r Un Corff Amgylcheddol[6] i gyflawni'r Dull Ecosystem yn effeithiol, trwy adfer a chynnal ecosystemau iach a'u bioamrywiaeth.

2. Bydd PBC yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i nodi bylchau mewn ymchwil a all effeithio ar waith datblygu a darparu Rhaglen Cymru Fyw. Bydd y bylchau mewn tystiolaeth a nodir gan Lywodraeth Cymru'n cael eu cynnwys yn *Strategaeth Ymchwil PBC*[7].

3. Bydd cynrychiolwyr academaidd PBC yn codi ymwybyddiaeth o'r blaenoriaethau ymchwil a nodwyd gan PBC ymysg y gymuned academaidd ehangach, ac yn meithrin cysylltiadau rhwng Grwpiau PBC a sefydliadau yng Nghymru, y DU ac yn rhyngwladol.

4. Bydd PBC a Llywodraeth Cymru yn deall yn well beth yw'r posibiliadau a'r cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â gweithio gyda'r gymuned academaidd i ddatrys bylchau mewn tystiolaeth. Mae PBC a'r cynrychiolwyr academaidd oedd yn bresennol wedi cytuno ar raglen waith a fydd yn fuddiol i'r ddwy ochr, a gydgysylltir gan PBC [8], er mwyn cyflawni *Strategaeth Ymchwil PBC.*

5. Bydd cyfarfod y Grŵp Academyddion sydd i'w gynnal ym mis Chwefror 2013, gyda Chanolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru a PBC, yn darparu cyswllt penodol i academyddion sy'n cymryd rhan mewn Grwpiau PBC ar hyn o bryd, a'r gymuned academaidd ehangach, er mwyn cydweithio i gyflawni *Strategaeth Ymchwil PBC*. Bydd y grŵp yn ceisio nodi ffyrdd newydd ac arloesol o fynd i'r afael â'r bylchau mewn tystiolaeth, yn cynnwys cyfleoedd i gydweithio ar draws Adrannau, Sefydliadau a Sectorau.

6. Bydd PBC yn lledaenu canlyniadau Gweithdy Academaidd PBC drwy'r gymuned academaidd, Llywodraeth Cymru, Canolfan Ymchwil Amgylcheddol Cymru ac yn ehangach. Bydd *Amlinelliad Prosiect Strategaeth Ymchwil PBC*[9] yn nodi'r camau cyflawni, arweinyddion y prosiect a'r amserlen ar gyfer mynd i'r afael â'r bylchau. Bydd *Strategaeth Ymchwil PBC*[10] yn cael ei llunio ddechrau 2013, i roi trosolwg o'r ymchwil sydd ei hangen yng Nghymru i lywio gwaith adfer iechyd ecosystemau a bioamrywiaeth, ac i atal colledion pellach. Bydd y strategaeth yn cysylltu â gwaith

[6] Bydd y corff hwn yn cyflawni dyletswyddau cyfredol Cyngor Cefn Gwlad Cymru, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru a Chomisiwn Coedwigaeth Cymru. Bydd ganddo'r potensial hefyd i gyflawni swyddogaethau pellach sy'n rhan o gylch gwaith sefydliadau eraill ar hyn o bryd. Daw'r corff newydd yn weithredol ar 1 Ebrill 2013.
[7] Strategaeth Ymchwil PBC, Amlinelliad Prosiect (gweler isod)
[8] Cydgysylltwyd gan TL
[9] Strategaeth Ymchwil PBC, Amlinelliad Prosiect (gweler isod)
[10] I'w gytuno gan Grŵp Llywio PBC yng Nghyfarfod Grŵp Llywio 18 PBC, 14 Tach 2012.

ymchwil cyfredol, ac adolygiadau ymchwil sy'n digwydd mewn rhannau eraill o'r DU a thramor. Bydd Cymru, felly, yn sefydlu ei chyfraniad yn y maes hwn.

**Cysylltiadau Ymchwil Cyfredol o fewn PBC (darparwyd gan Academyddion PBC)**

Dr Peter Dennis sy'n darparu'r Ysgrifenyddiaeth i Bwyllgor Gwyddoniaeth Bioamrywiaeth y DU (UK BSC)[11]. Bydd y Pwyllgor hwn yn cynrychioli cymuned wyddoniaeth bioamrywiaeth y DU ac yn gweithredu fel y pwyllgor cynghori ar gyfer Pwyllgor Ymchwil Amgylcheddol Byd-eang y Gymdeithas Frenhinol (GERC). Mae aelodau'r pwyllgor yn cynnwys cynrychiolaeth o Grŵp Cynghori Gwyddoniaeth Bioamrywiaeth y DU (BRAG); ac mae gan y pwyllgor gylch gwaith i ymgysylltu a chynrychioli blaenoriaethau o DIVERSITAS hefyd. Mae yna gysylltiad â Rhaglen Gynaliadwyedd Gwasanaethau Bioamrywiaeth ac Ecosystemau (BESS), a ariennir gan NERC, drwy Dr Jan Hiddink, Prifysgol Bangor (Grŵp Cynghori'r Rhaglen) a Dr Isabelle Durance (Prif Ymchwilydd arweiniol prosiect DURESS [12] - Amrywiaeth mewn Afonydd yr Ucheldir ar gyfer Cynaliadwyedd Gwasanaeth Ecosystemau).

## *Cynnig*

**STRATEGAETH YMCHWIL PBC[13] - AMLINELLIAD PROSIECT (MEDI 2012)**

| Cam | Gweithredu | Dyddiad Cwblhau 2012-13 | Arweinydd/ Arweinwyr[14] |
|---|---|---|---|
| 1 | Gweithdy Academaidd PBC, Caerdydd | 11 Medi | TL |
| 2 | Tabl bylchau mewn tystiolaeth - addasu a darparu i MB | 18 Medi | TL |
| 3 | Bylchau mewn tystiolaeth o newid yn yr hinsawdd - rhoi sylwadau i MB | 29 Hyd | RMcC |
| 4 | Bylchau mewn tystiolaeth forol - blaenoriaethu a rhannu'r 4 prif fwlch i brosiectau ymchwil ystyrlon a darparu i MB | 15 Hyd (i'w gadarnhau) Oedi yn sgil adnoddau staff | Grŵp Ecosystem Forol/PB |
| 5 | Llywodraeth Cymru i ddarparu bylchau mewn tystiolaeth a allai effeithio ar y gwaith o ddatblygu a darparu Dull Ecosystemau Rhaglen Cymru Fyw i TL | 5 Hyd (i'w gadarnhau) | RT |
| 5 | Templed o Gynnig y Prosiect[15] i'w anfon i academyddion y gweithdy a Grwpiau PBC ei gymeradwyo | 30 Hyd | TL |

[11] Disodli Pwyllgor Cenedlaethol Bioamrywiaeth y DU
[12] http://nerc-duress.org/
[13] Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru http://www.biodiversitywales.org.uk/cy-GB/CARTREF
[14] Arweinyddion: TL (Tracey Lovering); RMcC (Rob McCall); PB (Paul Brazier); RT (Rhian Thomas); MB (Mike Bruford); GP (Geoff Proffitt); SR (Shaun Russell)
[15] Templed Cynnig Prosiect Ymchwil (Atodiad 02)

| | | | |
|---|---|---|---|
| 6 | Sylwadau'r gymuned academaidd ar fylchau mewn tystiolaeth - coladu, cwblhau a'u rhoi i TL | 16 Tach | MB a GP |
| 7 | Rhoi adborth ar fylchau mewn tystiolaeth i Grwpiau/Cadeiryddion PBC a Llywodraeth Cymru. Darparu templed o'r cynnig prosiect ymchwil a'r canllawiau i Grwpiau. | 20 Tach | TL |
| 8 | PBC i hysbysu partneriaid ehangach am fylchau i sicrhau nad ydynt yn cael eu diwallu yn rhywle arall a chasglu ymatebion | 21 Tach | TL |
| 9 | Grwpiau PBC i 1) fynd i'r afael â sylwadau a ddarparwyd gan y gymuned academaidd a thrafod ymhellach gyda'r arweinydd academaidd penodedig lle bo angen, 2) nodi eu prosiectau ymchwil blaenoriaeth o dabl bylchau mewn tystiolaeth a, 3) cytuno ar arweinyddion/bwlch prosiect ymchwil a fydd wedyn yn cyflwyno Cynigion Prosiect ac Asesiadau Risg[16] i TL | 20 Rhag (i'w gadarnhau) | Grwpiau /Cadeiryddion /Arweinwyr Prosiect Ymchwil PBC |
| 10 | Uwchlwytho Cynigion Prosiectau Ymchwil ac Asesiadau Risg i wefan a rennir i hwyluso unrhyw sylwadau terfynol a'r broses o ddewis prosiectau gan sefydliadau academaidd | 20 Rhag | TL |
| 11 | Cyhoeddi adroddiad PBC ar wefan WERH a PBC: *Strategaeth Ymchwil PBC* yn cynnwys cofestr o fylchau tystiolaeth/anghenion ymchwil PBC | 31 Ion '13 (i'w gadarnhau) | TL/SR |
| 12 | Grŵp Academaidd, dan arweiniad Mike Bruford a Geoff Proffitt i gyfarfod yn WERH (i'w gadarnhau) i drafod cynigion prosiect, cyfleoedd i gydweithio rhwng sefydliadau ac adrannau, a chynghori ar brosiectau penodol lle mae hynny'n ddefnyddiol. | 28 Chwe '13 (i'w gadarnhau) | MB/GP/SR/TL |
| 13 | Arweinwyr adrannau academaidd i gysylltu ag arweinwyr prosiect ymchwil Grŵp PBC a TL i gytuno ar drefniadau fesul prosiect a ddewiswyd. Angen cofrestr. | 31 Mawrth '13 (i'w gadarnhau) | Arweinwyr Academaidd/ TL/Arweinwyr Prosiect Ymchwil |
| 14 | Paratoi ar gyfer Prosiectau Ymchwil | Medi '13 | Arweinwyr Academaidd/ TL/Arweinwyr Prosiect Ymchwil |
| 15 | Prosiectau Ymchwil ar waith | O Hydref '13 | Arweinwyr Academaidd/ TL |
| 16 | Adolygu'r blaenoriaethau tystiolaeth yn dechrau'r cylch unwaith eto; nodi prosiecatu blaenoriaeth i'w darparu yn 2014-2015 | Medi '13 | TL / Cadeiryddion PBC |

Cydgysylltydd: Tracey Lovering
Cynghorydd Ecosystemau PBC
t.lovering@ccw.gov.uk

---

[16] Darperir Asesiadau Risg i ymchwiliwyr gan y sawl sy'n comisiynu'r gwaith, sy'n gwybod am y safleoedd a'r materion.

Swyddfa: 01970 631177
Ffôn symudol: 07779 010580

***Camau Gweithredu gofynnol***

- Ein cymeradwyo i barhau yn ôl fel yr awgrymir uchod IE/NA

**WBPSG18**
**APPENDIX 01**
**14th November 2012**

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

## WBP Academics Workshop 2012 – Delegate list

| | |
|---|---|
| Dr Shaun Russell (Chair) | Wales Environment Hub s.russell@bangor.ac.uk |
| Steve Spode (Facilitator) | Welsh Government steve.spode@wales.gsi.gov.uk |
| Dr Catherine Duigan (Facilitator) | Countryside Council for Wales c.duigan@ccw.gov.uk |
| Tracey Lovering (Facilitator) | WBP Support Team t.lovering@ccw.gov.uk |
| Alys Edwards (Facilitator) | WBP Support Team aedwards@wtwales.org |
| Angus Garbutt | Centre for Ecology & Hydrology ag@ceh.ac.uk |
| Andy Mackie | National Museum of Wales Andy.Mackie@museumwales.ac.uk |
| Prof Bill Symondson | Cardiff University Symondson@cardiff.ac.uk |
| Charles Morgan | Upland Ecosystem Group pontcymru@phonecoop.coop |
| Chris Tucker | Woodland Ecosystem Group chris.tucker@forestry.gsi.gov.uk |
| Clare Burrows | Enclosed Farmland Ecosystem Group c.burrows@ccw.gov.uk |
| Dai Harris | Welsh Government Dai.Harris@Wales.GSI.Gov.UK |
| Dr Geoff Proffitt | Swansea University G.Proffitt@swansea.ac.uk |
| Graham Oliver | National Museum of Wales graham.oliver@nmgw.ac.uk |
| Dr Isabelle Durance | Cardiff University DuranceI@cardiff .ac.uk |
| Dr Jan Hiddink | Bangor University j.hiddink@bangor.ac.uk |
| Jan Sherry | Lowland Grassland & Heathland Ecosystem Group j.sherry@ccw.gov.uk |
| Jim Latham | Welsh Government j.latham@ccw.gov.uk |
| Dr John Healy | Bangor University j.healey@bangor.ac.uk |
| John Watkins | Welsh Government John.Watkins@Wales.GSI.Gov.UK |
| Julia Korn | Countryside Council for Wales J.Korn@ccw.gov.uk |
| Katherine Raymond | Welsh Government katherine.raymond@wales.gsi.gov.uk |
| Kathryn Monk (pm only) | Environment Agency kathryn.monk@environment-agency.wales.gov.uk |
| Dr Katie Medcalf | Environment Systems katie.medcalf@envsys.co.uk |
| Prof Mike Bruford | Cardiff University BrufordMW@cardiff.ac.uk |
| Prof Mike Christie | Aberystwyth University mec@aber.ac.uk |
| Alan Kearsley-Evans | Coastal Ecosystem Group Alan.Kearsley-Evans@nationaltrust.org.uk |
| Paul Brazier | Marine Ecosystem Group p.brazier@ccw.gov.uk |
| Dr Pete Jones | Wetland Ecosystem Group P.Jones@ccw.gov.uk |
| Dr Peter Bunting | Aberystwyth University pfb@aber.ac.uk |
| Dr Peter Dennis | Aberystwyth University pdd@aber.ac.uk |
| Rhian Thomas | Welsh Government rhian.thomas17@wales.gsi.gov.uk |
| Dr Richard Unsworth | University of Glamorgan R.K.F.Unsworth@swansea.ac.uk |
| Dr Rob McCall | Countryside Council for Wales R.McCall@ccw.gov.uk |
| Prof Steve Ormerod | Cardiff University ormerod@Cardiff.ac.uk |
| Dr Tim Pagella | Wales Environment Hub afse0c@bangor.ac.uk |
| Dr Tristan Hatton-Ellis | Freshwater Ecosystem Group T.Hatton-Ellis@ccw.gov.uk |

Bioamrywiaeth Cymru
Biodiversity Wales

PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**WBP ACADEMIC/VOLUNTEER RESEARCH PROJECT PROPOSAL**

*N.B. Please expand as required*

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Project title:** | | | |
| **Lead Organisation:** | | **Project leader:** | |
| **Address:** | | **Email:**<br>**Tel:**<br>**Mob:** | |
| **Collaborating institutions:** | | | |
| **Location:** | | | |
| **Start date:** | | **Completion required by:** | |

| |
|---|
| **Project rational/ What is the specific question being asked?** |
| |
| **Can this project be divided into more than one project?** ***If yes, clarify above*** |
| **Aims:** |

| **Scale of project?** | **Site-specific?** ***Name site & any designation.*** | **Range of sites?** ***Name sites & any/ designation.*** | **Suggested site/s/locations?** |
|---|---|---|---|
| | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **Access to previous data/reports on site?** | | **YES/NO** | **RA[1] attached** | **YES/NO** |
| **Logistics managed by:** | **Lead Organization** | **YES/NO** | **Researcher** | **YES/NO** |
| **Opportunity for follow-on student placement with Lead Organisation?** | | | | **YES/NO** |

| |
|---|
| **Training element/skills required:** |
| **Expected deliverables:** |
| **Resources required:** |
| **Any special considerations:** |

**Return completed form to: t.lovering@ccw.gov.uk Tel: 01970 631177 / 07779 010580**

[1] RA: Risk Assessment

**GRŴP LLYWIO 18 PBC**
**PAPUR I'W NODI C**
**14eg Tachwedd 2012**

Bioamrywiaeth Cymru Biodiversity Wales
PARTNERIAETH BIOAMRYWIAETH CYMRU
WALES BIODIVERSITY PARTNERSHIP

**Teitl: Symleiddio dulliau Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol**

**Cynhyrchwyd gan: Laura Palmer MIEEM – Ecolegydd Cyngor Caerdydd, ar ran PBC a Chyngor Cefn Gwlad Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Yng nghyfarfod Grŵp Llywio 16 PBC (21ain Chwefror 2012 Eitem 6), amlinellodd Laura Palmer brosiect adolygu Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol (LBAP) Caerdydd a gynhelir rhwng mis Ebrill 2012 a mis Mawrth 2013. Nod y prosiect yw symud i gysylltiadau cyfathrebu LBAP seiliedig ar fap rhwng blaenoriaethau lleol a chenedlaethol ac adlewyrchu datblygiadau mewn polisïau cenedlaethol.

Mae 4 maes gwaith allweddol wedi'u nodi. Yng Nghynhadledd PBC ym mis Medi cynhaliwyd gweithdy i asesu'r meysydd hyn ac i edrych ar ffyrdd cenedlaethol a lleol o fynd i'r afael â nhw.

Mae'r tabl yn amlinellu'r meysydd a nodwyd, yr anghenion penodol a'r prosiectau cenedlaethol a lleol i ddiwallu'r anghenion hyn.

| Maes allweddol | Angen a nodwyd | Prosiect cenedlaethol | Prosiect lleol |
|---|---|---|---|
| Canllawiau Cynefinoedd | Un man cyfeirio ar gyfer disgrifiadau o gynefinoedd ac asesiad o'u cyflwr sy'n darparu ar gyfer gwahaniaethau mewn gwybodaeth fotanegol a thechneg arolygu | Un man cyfeirio ar gyfer yr holl dechnegau arolygu a chyflwr a ddefnyddir yn eang gan Ganllawiau Safleoedd Bywyd Gwyllt | Gweithio gyda grŵp lleol i gynhyrchu adnoddau hyfforddi ac adnoddau eraill ar rywogaethau dangosol |
| Gwirfoddolwyr | Gwirfoddolwyr yw asgwrn cefn cadwraeth yng Nghymru, dylid eu defnyddio'n fwy effeithlon a dylem roi blaenoriaeth i gefnogi ac annog gwirfoddolwyr | Bydd y system BARS newydd yn galluogi gwirfoddolwyr i adrodd am waith lleol a gweld sut mae hynny'n perthyn i'r darlun cenedlaethol | Sefydlu tudalen Photobucket a darparu hyfforddiant arno ac iSpot i grwpiau lleol i'w helpu gyda chofnodi biolegol |
| Casglu gwybodaeth | Er eu bod yn cael eu defnyddio'n eang gellir diweddaru technegau casglu data hanesyddol i alluogi defnydd gwell o dechnolegau sy'n datblygu i gasglu data ac adrodd arno | Mae'r system BARS newydd yn galluogi'r holl ddefnyddwyr i asesu manteision y prosiectau cyn ac ar ôl eu cwblhau | Gellir hyfforddi grwpiau lleol i ddefnyddio taflenni cofnodi pwrpasol |
| Cynlluniau Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol Strategol | Mae'r rhestri o gamau gweithredu sy'n rhan o'r Cynlluniau yng Nghymru yn anodd i'w trosi ac mae mapiau yn ddatganiad mwy eglur a dibynadwy | Mapio Grwpiau Ecosystem Cymru | Mapiau Cynlluniau wedi'u gwneud o ardaloedd strategol yn cynnwys blaenoriaethau ar gyfer arolygu, cynnal a chadw, gwella a chreu. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | Mae hyn yn canolbwyntio adnoddau heb eu cyfyngu'n ormodol. |

Roedd canlyniadau'r gweithdy yn gadarnhaol iawn a bydd crynodeb yn cael ei gyhoeddi gydag adborth y gynhadledd. O ran datblygu'r prosiect, mae'r prosiectau canlynol wedi'u blaenoriaethu ar gyfer eu treialu'n genedlaethol ac yng Nghaerdydd:

- Canllawiau Safleoedd Lleol wedi'u' hail-ddrafftio - i'w cyflwyno i Grŵp Llywio PBC ym mis Chwefror
- Parhau i gyflwyno data a rhoi hyfforddiant ar ddefnyddio'r BARS newydd (cenedlaethol)
- Gweithio'n uniongyrchol gyda grwpiau sy'n rhan o bartneriaethau LBAP ar gasglu gwybodaeth yn cynnwys datblygu dulliau lleol ar gyfer casglu data biolegol a chasglu camau gweithredu trwy BARS
- Creu fersiwn ofodol o LBAP Caerdydd fel enghraifft o sut y gellir defnyddio meysydd blaenoriaeth i ganolbwyntio adnoddau
- Cynnwys gwasanaethau ecosystem ar ôl i ni dderbyn diffiniad ohonynt.

***Cynllun/Cynigion***

Bydd y prosiectau a amlinellir uchod yn cael eu datblygu a'u cydgysylltu gan Laura Palmer.

Bydd y gweithgor SINC gwreiddiol yn ailymgynnull dros y gaeaf a'r Canllawiau Safleoedd Lleol diwygiedig yn cael eu cyflwyno i Grŵp Llywio 19 PBC i'w cymeradwyo.

Mae PBC wedi dechrau gwaith ar y system BARS newydd.

Bydd Laura Palmer yn parhau gyda'r prosiect grwpiau lleol a chreu fersiwn ofodol o LBAP Caerdydd. Cyflwynir adroddiad ar y rhain i gyfarfod Grŵp Llywio 20 PBC.

***Camau Gweithredu gofynnol***

- O dîm gorchwyl a gorffen i gyflawni'r cam nesaf IE
Ailgynnull gweithgor SINC

- Ein cymeradwyo i barhau yn unol â'r hyn a awgrymir uchod NA

- Gofyn i holl aelodau PBC ………………………… NA

**GRŴP LLYWIO 18 PBC**
**PAPUR I'W NODI D**
**14eg Tachwedd 2012**

**Teitl: Ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd ar gyfer y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr**

**Cynhyrchwyd gan: Nick Bialynicki-Birula, Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru**

***Cefndir/Cynnydd***

Mae Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cyflwyno'r dull strategol ar gyfer darparu Cyfarwyddeb y Fframwaith Ddŵr Ewropeaidd yng Nghymru. Mae'r gwaith o gynllunio'r ail gylch o dri Chylch Cynllunio Basn Afon wedi dechrau gyda'r 'Ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd'. Ni all unrhyw sefydliad wneud y cyfan ei hun. Mae'n hanfodol ein bod yn gweithio ar draws sectorau a chydweithio mewn partneriaeth er mwyn gwella a chynnal yr amgylchedd dŵr yng Nghymru.

Ond beth yw ystyr Gweithio gyda'n Gilydd?

Rydym yn chwilio am ffyrdd arloesol o ymgysylltu'n effeithiol â phartneriaid i Gynllunio Basn Afon wrth i ni symud tuag at sefydliad newydd yng Nghymru. Rydym am i chi gyflwyno'ch syniadau ar sut y gallwn ni wella'r ffordd yr ydym yn gweithio gyda'n gilydd a phwyso a mesur ein dyheadau ar gyfer y dyfodol.

I gael gwybodaeth am sut i gymryd rhan yn yr ymgynghoriad cysylltwch â Ceri Jones neu Kyle Young ac ewch i'r wefan ymgynghori. Daw'r ymgynghoriad i ben ar 22 Rhagfyr 2012.

***Cynllun/Cynigion***

Mae Asiantaeth yr Amgylchedd yn gofyn i aelodau Grŵp Llywio Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru roi eu sylwadau ar Gweithio gyda'n Gilydd.

***Camau Gweithredu gofynnol***

- Sefydlu tîm gorchwyl a gorffen i gyflawni'r cam nesaf NA
- Ein cymeradwyo ni i barhau fel yr awgrymwyd uchod NA
- Gofyn i holl aelodau Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru gyfrannu at yr Ymgynghoriad Gweithio gyda'n Gilydd drwy'r wefan a darparu sylwadau ychwanegol perthnasol i'r Un Corff Amgylcheddol yng Nghymru a gwaith Rheoli Basn Afon trawsffiniol yn uniongyrchol i Kyle Young a/neu Ceri Davis………………………… IE